

CALEDI, CYFOETH AC ANNIDDIGRWYDD, 1951–1979

Rhan 5: “Can’t Get No Satisfaction” Diwylliant Poblogaidd, c.1951-1979



Ffynhonnell 1: Cefnogwyr y tu allan i Balas Buckingham wrth i The Beatles dderbyn eu gwobrau MBE yn 1965

Beth oedd y prif newidiadau mewn cerddoriaeth boblogaidd rhwng 1951 ac 1979?

Sut roedd pobl yn gwranddo ar gerddoriaeth

1) Recordiau

Cyn 1950, roedd pobl yn gwranddo ar gerddoriaeth yn eu cartrefi trwy chwarae recordiau ar beiriannau gramoffon mawr. Roedd y recordiau 78 rpm hyn yn drwm, yn fregus ac yn ddrud. Cyflwynwyd technoleg recordiau newydd yn 1948:

- y sengl 45 rpm 7 modfedd (a elwid yn EP, yn fyr am 'chwarae estynedig' [*extended play*]) gan RCA Victor
- yr albwm 33¹/₃ rpm 12 modfedd (a elwid yn LP, yn fyr am 'chwarae hir' [*long play*]) gan Columbia.

Roedd y recordiau finyl newydd hyn yn llawer rhatach ac yn para'n hirach. Roedden nhw hefyd yn cynrychioli'r perfformiad cerddorol ei hun yn fwy cywir. Roedd y recordiau newydd hyn yn golygu prisiau is, ac yn ystod yr 1950au, dechreuwyd defnyddio clawr record llun yn lle clawr plaen (gyda thwll yn y canol i ddangos teitl y record) er mwyn gwerthu mwy o recordiau. Gwerthwyd oddeutu 4 miliwn o senglau 7 modfedd yn 1955, ond roedd hyn wedi cynyddu i 61 miliwn erbyn 1963.

Dechreuodd pobl brynu mwy o albymau na senglau. Roedd pobl ifanc yn eu harddegau yn yr 1950au yn prynu senglau gan mwyaf. Erbyn yr 1960au roedd y prynwyr recordiau ifanc hyn wedi tyfu ac am gael mwy na dim ond cân bop dwy funud a hanner o hyd, felly dechreuodd mwy o albymau gael eu gwerthu. Gwerthwyd tair gwaith yn fwy o senglau nag albymau yn 1964, ond erbyn 1968, roedd yr un faint o albymau a senglau'n cael eu gwerthu (49 miliwn copi o bob un). Erbyn diwedd yr 1960au, gallai Led Zeppelin werthu 2 filiwn o albymau a dod yn un o'r bandiau mwyaf enwog yn y byd heb werthu dim un sengl.

Roedd chwaraewyr recordiau newydd yn ei gwneud yn haws gwranddo ar recordiau. Er enghraifft, roedd y Dansette, a oedd yn cael ei wneud yn y DU o 1952 ymlaen, yn nodweddiadol o'r chwaraewyr recordiau newydd hyn – roedd yn llai ac yn ysgafnach, ac roedd rhai modelau yn gludadwy. Roedd modelau hwyrach yn cynnwys hunan-newidwyr (*autochangers*) a oedd yn galluogi pobl i wrando ar sawl record, un ar ôl y llall, heb orfod eu newid. Roedden nhw'n gallu chwarae recordiau 7 a 12 modfedd ar 33¹/₃, 45 a 78 rpm.

Dyfeisiwyd y jiwcbocs, sef chwaraewr recordiau cyhoeddus a oedd yn cynnwys cannoedd o recordiau y gellid dewis eu chwarae, yn UDA yn 1927 a chafodd yr un cyntaf ei wneud yn y DU yn 1938. Ychydig o gannoedd ohonyn nhw oedd yn y DU yn 1945, ond roedd 13,000 yn y wlad erbyn 1958. Roedd jiwcbocs yn golygu bod gwrandawyr yn gallu rheoli beth a wrandawant arno mewn manau cyhoeddus. Wrth i'r cyfnod o galedi a dogni ddod i ben yn yr 1950au cynnar, gallai jiwcbocsys a recordiau gael eu mewnfurio'n uniongyrchol o UDA. Ar y pryd, nid oedd recordiau America yn cael eu chwarae'n aml ar y BBC, sef yr unig wasanaeth radio a oedd ar gael yn gyfreithlon ym Mhrydain. Chwaraewyd cerddoriaeth jazz a recordiau roc a rôl ar y jiwcbocs yn

3 Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd 1951-1979: Rhan 5

gyntaf. Roedden nhw i'w canfod yn aml mewn mannau lle'r oedd pobl yn eu harddegau yn treulio eu hamser hamdden, e.e. y nifer cynyddol o fariau coffi fel El Toro yn Muswell Hill, neu'r Kardomah yn Lerpwl.



Ffynhonnell 2: Chwaraewr recordiau Dansette

2) Casetiau

Dyfeisiwyd y casét, sef blwch bach plastig yn cynnwys rîl o dâp, gan Philips yn 1963. Dim ond ar gyfer arddweud (*dictation*) roedd y casét yn cael ei ddefnyddio'n wreiddiol, oherwydd nad oedd ansawdd y sain a oedd yn cael ei atgynhyrchu yn dda iawn. Yn yr 1970au cynnar, gwnaethpwyd nifer o welliannau i ansawdd y sain trwy ddefnyddio tapiau metel ansawdd uwch a thechnegau lleihau sŵn. Prif fantais y tâp casét dros recordiau oedd eich bod yn gallu ei brynu â cherddoriaeth wedi'i recordio arno'n barod, ac yn gallu recordio arno eich hun. Yn fuan, roedd tapiau ar gael a oedd yn gallu recordio dwy neu dair awr o gerddoriaeth, ac roedden nhw hefyd yn llai ac yn fwy cyfleus na recordiau. Erbyn 1977, roedd mwy o gerddoriaeth yn cael ei gwerthu ar gasét nag ar recordiau finyl. Cyflwynwyd y Walkman gan Sony yn 1979. Chwaraewr casetiau bach a chcludadwy ydoedd, a oedd yn gallu cael ei gario a'i ddefnyddio yn unrhyw le. Roeddech chi'n gwranddo arno trwy ddefnyddio clustffonau bach. Roedd y casét yn fformat cerddoriaeth poblogaidd tan yr 1990au.



Ffynhonnell 3: Pobl ifanc yn eu harddegau yn gwranddo ar y jiwcbocs

3) Radio

Roedd technoleg radio wedi newid hefyd. Cyn yr 1950au, roedd radios yn defnyddio falfiau gwydr i fwyhau'r sain. O 1956 roedd radios transistor ar gael yn y DU.¹ Roedden nhw'n llai ac yn ysgafnach o lawer, ac yn rhedeg ar fatris hir oes. Roedden nhw hefyd yn gludadwy iawn. Roedd y radios newydd hyn yn golygu bod gwranddo ar y radio bellach yn brofiad mwy personol – nid oedd pobl ifanc yn eu harddegau yn cael eu gorfodi i wrando ar beth roedd eu rhieni am iddyn nhw wrando arno mwyach.

¹ Mae mwy o wybodaeth am radios transistor ar gael yn <http://goo.gl/2aoDKQ>



Ffynhonnell 4: Radio transistor cynnar a oedd ar gael yn y DU yn 1956

Roedd newidiadau ym maes darlledu ar y radio hefyd. Hyd at yr 1970au, roedd gan y BBC fonopoli ar ddarlledu radio yn y DU. Roedd rhaglenni'r BBC yn gyfyngedig iawn o ran y gerddoriaeth roedden nhw'n gallu ei chwarae, ac nid oedd llawer o amser ar yr awyr yn cael ei roi i artistiaid newydd, yn enwedig y rheini a oedd yn gysylltiedig â chynulleidfaoedd yn eu harddegau. Dim ond *Pick of the Pops* oedd yn chwarae'r gerddoriaeth hon unwaith yr wythnos.

Darlledwyd Radio Luxembourg yn y nosweithiau o gyfandir Ewrop. Roedd yr orsaf wedi'i hanelu at filwyr UDA yn yr Almaen, ond roedd yn gallu cael ei derbyn yn y DU hefyd. Roedd y rhaglenni'n cynnwys mwy o gerddoriaeth boblogaidd a modern, yn enwedig y recordiau diweddaraf o America. Gwnaethpwyd y cyflwynwyr, neu'r troellwyr disgiau – **y DJs** fel Jimmy Young ac Alan Freeman, yn sêr enwog.

Dechreuodd Radio Caroline ddarlledu yn 1964, o long wedi'i hangori oddi ar arfordir y DU, y tu hwnt i ddyfroedd tiriogaethol Prydain. Gwnaeth llawer mwy o orsafoedd radio answyddogol (*pirate radio stations*), ymddangos ar ôl hyn,² a'r mwyaf llwyddiannus oedd Radio London. Roedden nhw'n chwarae cerddoriaeth boblogaidd yn ddi-baid, gan gynnwys cerddoriaeth gyfoes y siartiau, senglau hŷn a thraciau albwm. Roedd miliynau o bobl yn gwrandao ar y DJs llai ffurfiol fel Tony Blackburn a Kenny Everett, ac yn mwynhau'r gerddoriaeth nad oedden nhw'n gallu ei chlywed ar y BBC. Yn y pen draw, pasiodd y llywodraeth Ddeddf Troseddau* a Darlledu yn 1967 ac o ganlyniad roedd gorsafoedd radio answyddogol yn anghyfreithlon a chawsant eu cau.

Ymateb y BBC oedd cyflogi llawer o DJs mwyaf llwyddiannus y gorsafoedd radio answyddogol i weithio ar ei rwydwaith Radio 1 newydd. Roedd yr orsaf yn darlledu am ychydig oriau'r dydd yn unig ar y dechrau, ond aeth Radio 1 yn boblogaidd iawn yn gyflym iawn – er enghraifft, roedd *Breakfast Show* Tony Blackburn yn denu 20 miliwn o wrandawyr yn rheolaidd yn yr 1970au.

4) Teledu

Roedd rhaglenni cerddoriaeth boblogaidd ar y teledu hefyd. Yn 1956, dechreuodd ITV ddarlledu *Cool for Cats*, lle'r oedd dawnswyr yn dawnsio i recordiau poblogaidd. Roedd y BBC yn darlledu *Six-Five Special* o 1957 ymlaen ('Time to jive on the old six five' oedd hoff ymadrodd y cyflwynydd

² Gallwch wylio ffilm fer am Radio Caroline yn <http://goo.gl/pJxX3r>. Mae rhaglen ddogfen am orsafoedd radio answyddogol Prydain ar gael yn <http://goo.gl/PIJU1C>

Pete Murray). Roedd hon yn rhaglen gylchgrawn ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau a oedd yn cynnwys cyfweiliadau, digrifwyr a pherfformiadau cerddoriaeth boblogaidd. Roedd yn cael ei darlledu amser te nos Sadwrn, ac aeth yn boblogaidd iawn yn gyflym iawn, gan ddenu 10 miliwn o wylwyr yn rheolaidd. Ychwanegodd y BBC *Juke Box Jury* at ei amserlen nos Sadwrn o 1959 ymlaen. Roedd deuddeg miliwn o bobl yn aml yn gwyllo panel o bedwar o enwogion yn rhoi eu barn ('Hit' neu 'Miss') ar y recordiau diweddaraf i gael eu rhyddhau. Mewn ymateb, dechreuodd ITV ddarlledu *Oh Boy!* a oedd yn cynnwys perfformiadau rheolaidd gan gantorion ifanc poblogaidd fel Cliff Richard a Marty Wilde. Y rhaglen gerddoriaeth a fu'n rhedeg hiraf ar y teledu oedd *Top of the Pops* gan y BBC a fu'n rhedeg o 1964 i 2006, ac yng nghanol yr 1970au roedd yn aml yn denu 15 miliwn o wylwyr yr wythnos.³

Ble roedd pobl yn gwranddo ar gerddoriaeth

1) Neuaddau dawns

Wrth i'r teledu ddwyn eu cynulleidfaoedd byw, daeth hen theatrau cerdd yn lleoliadau lle gallai bandiau ganu i gynulleidfaoedd byw. Roedd neuadd ddawns gan bob tref, a chyn iddyn nhw ddod yn enwog, roedd bandiau fel The Beatles yn mynd â'u cerddoriaeth i gynulleidfa eang trwy gymryd rhan mewn sioeau teithiol a fyddai'n mynd o dref i dref ac o ddinas i ddinas, yn canu yn yr hen neuaddau hyn.

Yn 1951, roedd 450 o neuaddau dawns,⁴ a oedd yn cael eu rhedeg gan y cadwyni Mecca a Locarno yn bennaf, lle'r oedd pobl yn gallu mynd i ddawnsio i gerddoriaeth fyw. Roedd bandiau mawr, fel band dawns 'Ted Heath and his Music',⁵ yn canu caneuon 'swing' Frank Sinatra a Glenn Miller. Oedolion oedd yn tueddu i fynd i ddawnsio yn y neuaddau, nid y bobl ifancach. Roedd hysbysiadau '**Dim jeifio**' yn cael eu hanwybyddu'n aml. Roedd y neuaddau dawns hyn fel arfer yn boblogaidd iawn – roedd 7,000 o ddawnsiwr yn mynd i'r Palais yn Hammersmith bob nos.⁶

2) Clybiau nos a disgos

Daeth clybiau nos⁷ (discothèque yn Ffrangeg) i gymryd lle'r neuaddau dawns fel rhywle i bobl ifanc fynd i ddawnsio ar ddiwedd yr 1950au. Fel mae'r enw yn ei awgrymu, roedden nhw ar agor yn hwyr iawn fin nos. Roedd mwy na bariau yn gweini alcohol yn y clybiau hyn – roedd lloriau dawnsio lle gallai dawnsiwr glywed y bandiau diweddaraf neu recordiau'n cael eu chwarae gan DJs. Roedd mwy a mwy o'r clybiau hyn yn ymddangos, ac roedden nhw'n bodloni amrywiaeth eang o chwaethau cerddorol:

- Agorwyd y clwb Marquee ar Oxford Street yn Llundain yn 1958 fel clwb jazz i ddechrau, cyn dod yn bwysig fel lle i lansio gyrfaedd bandiau fel The Rolling Stones, Yardbirds a Led Zeppelin yn yr 1960au, yn ogystal â cherddorion fel Jimi Hendrix a David Bowie. Chwaraeodd y clwb rôl bwysig yn symudiad pync cynnar yr 1970au hefyd
- Agorwyd y clwb UFO ar Tottenham Court Road yn 1966 – roedd y sioeau 'golau hylif seicedelig' yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â pherfformiadau byw gan fandiau arloesol o'r 1960au fel Pink Floyd⁸

³ Gallwch wyllo clipiau o berfformiadau fesul degawd ar wefan Top of the Pops y BBC: <http://goo.gl/Rj2wt9>

⁴ Gallwch wyllo clipiau o neuaddau dawns a phobl yn jeifio yma: <http://goo.gl/JqCIVf>

⁵ Fideo lliw arbennig o dda o Ted Heath <https://youtu.be/0PMxlqBUZIk>

⁶ Mae pwysigrwydd y Palais lleol i chwaer Ray Davies o fand The Kinks yn rhan o'r gân 'Come Dancing' o 1982 <https://www.youtube.com/watch?v=6lgzc0axshc>

⁷ Gallwch weld ffotograffau o glybiau nos coll Llundain yma: <http://goo.gl/V4DI7V>

⁸ Mae fideo o Pink Floyd yn perfformio 'Interstellar Overdrive' ar gael mewn lliw yn <http://goo.gl/esZn1t> neu mewn du a gwyn yn <https://youtu.be/5uqzMaNPIJM> ac mae fideo du a gwyn o glwb UFO neu 'Astronomy Domine' ar gael yn <http://goo.gl/t8vDji>

- Daeth Wigan Casino⁹ yn lleoliad ar gyfer sesiynau dawnsio trwy'r nos *Northern Soul* o 1973 ymlaen. Yn 1978, cafodd ei ddisgrifio fel 'y disgo gorau yn y byd' yn y cylchgrawn Americanaidd Billboard. (Lleoliadau Northern Soul eraill oedd The Twisted Wheel ym Manceinion a The Golden Torch yn Stoke-on-Trent)
- Agorwyd The Cavern Club ar Mathew Street yn Lerpwl yn 1957. Yn wreiddiol, roedd ar agor amser cinio ac yn gweini coffi llaethog, gan nad oedd trwydded alcohol gan y clwb. Dechreuodd fel clwb jazz, ond daeth yn rhywle lle gallai pobl ifanc weld bandiau'n canu roc a rôl yn fyw. Canodd The Beatles yno bron i 300 o weithiau rhwng 1961 ac 1963, a disgrifiodd eu rheolwr Brian Epstein y clwb fel "llond seler o gerddoriaeth fyw."¹⁰



Ffynhonnell 5: The Cavern Club

3) Perfformiadau awyr agored a gwyliau

Dechreuodd gwyliau awyr agored mawr, di-dâl, lle gallai cynulleidfaoedd wrando ar amrywiaeth eang o berfformiadau cerddorol gan rai o fandiau ac artistiaid mwyaf poblogaidd y cyfnod, fel rhan o symudiad yr hipis yn yr 1960au. Daethant i'r amlwg yn UDA i gychwyn, gyda digwyddiadau fel y Monterey Pop Festival yn 1967 a'r Woodstock Music and Art Fair yn 1969. Gwnaethpwyd sawl ymgais nodedig i gynnal gwyliau am ddim yn y DU hefyd:

- rhoddodd The Rolling Stones gyngerdd awyr agored am ddim i 250,000 o gefnogwyr yn Hyde Park, Llundain, ym mis Gorffennaf 1969¹¹ – dyma oedd y sioe gyntaf gyda'r gitarydd newydd Mick Taylor, a gwnaeth y prif ganwr Mick Jagger ddarllen rhywfaint o farddoniaeth a rhyddhau glöynnod byw gwyn er cof am gyn aelod o'r band, Brian Jones, a fu farw ychydig ddiwrnodau ynghynt

⁹ Gallwch wyllo *This England*, rhaglen ddogfen o 1978 ar ddisgos trwy'r nos Wigan Casino yma: <http://goo.gl/5WSgmt>

¹⁰ Dyfynnwyd yn *Yesterday's Britain: The illustrated story of how we lived, worked and played in this century* (Reader's Digest, 1998), tudalen 256.

¹¹ Recordiad teledu o'r sioe hon *The Stones in the Park* https://youtu.be/_qxMRHyZq0

- dechreuodd Gŵyl Ynys Wyth yn 1968, ac erbyn mis Awst 1970¹² cafwyd cynulleidfa o 600,000 o bobl; roedd y digwyddiad yn cynnwys dros hanner cant o berfformiadau cerddorol gan bobl fel The Who, Jimi Hendrix a The Doors
- aeth 1,500 o bobl i Pilton Pop, Blues and Folk Festival yn 1970 i weld y band Tyrannosaurus Rex (T-Rex yn ddiweddarach) yn gorffen y noson. Newidiwyd enw'r digwyddiad hwn i Glastonbury Fayre¹³ yn 1971, a David Bowie oedd un o'r prif artistiaid y flwyddyn honno.

Tueddiadau newidiol mewn cerddoriaeth boblogaidd 1951-1979¹⁴

Cerddoriaeth boblogaidd o gwmpas 1951 – cerddoriaeth 'mam a dad'

Roedd cerddoriaeth Americanaidd eisoes yn ddylanwad mawr ar y DU cyn dyfodiad roc a rôl yn yr 1950au. Roedd pobl yn gwrando ar gerddoriaeth jazz America ers yr 1920au, ac roedd cerddoriaeth 'swing', fersiwn dawns fwy modern o jazz, wedi dod yn boblogaidd yn yr 1940au yn sgil darllediadau radio Rhwydwaith Lluoedd America i filwyr UDA yn y DU. Erbyn 1951, cerddoriaeth artistiaid Americanaidd fel Glenn Miller a Tommy Dorsey roedd pobl yn dawnsio iddi yn hytrach na cherddoriaeth gan artistiaid o Brydain.

Roedd artistiaid America yn dylanwadu'n drwm ar siartiau'r 1950au cynnar (ar sail gwerthiant cerddoriaeth ddalen), a oedd yn llawn caneuon gan Frank Sinatra, Dean Martin a Perry Como, ochr yn ochr â darnau cerddorfaol. Mewn ymateb i hyn, erbyn diwedd yr 1950au, roedd y pedwar prif gwmi recordiau ym Mhrydain yn gwneud y rhan fwyaf o'u helw o recordiau comedi, recordiadau o berfformiadau clasurol neu sioeau cerdd y West End, yn hytrach na cherddoriaeth boblogaidd a cherddoriaeth ddawns.

1950au: Roc a rôl a sgiff

Defnyddiwyd 'roc a rôl' gan y DJ Americanaidd Alan Freed a wnaeth boblogeiddio'r term i ddisgrifio cerddoriaeth sionc pobl dduon America a oedd yn cael ei gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd gwyn. Elvis Presley oedd y mwyaf enwog i ganu'r math hwn o gerddoriaeth. Y gân 'Shake, Rattle and Roll' gan Bill Haley yn 1954,¹⁵ yn ogystal â chaneuon eraill yn y ffilm *Rock Around the Clock*, oedd y tro cyntaf i lawer o bobl glywed roc a rôl yn y DU. Roedd pobl yn clywed sêr roc a rôl America fel Elvis Presley, Chuck Berry, Little Richard a Buddy Holly am y tro cyntaf ar Radio Luxembourg.

Yr artistiaid roc a rôl cyntaf ym Mhrydain oedd Tommy Steele, â'i gân boblogaidd 'Singing the Blues' a gyrhaeddodd frig y siartiau yn 1957, a Cliff Richard a gafodd lwyddiant ysgubol ar y cyd â'i fand, The Shadows, gyda'r gân '*Move It*'¹⁶ yn 1958. Caiff albwm cyntaf Billy Fury o 1960, *Sound of Fury*, ei ystyried fel y record roc a rôl Brydeinig orau erioed. Roedd Fury wedi ysgrifennu'r caneuon i gyd ei hun, ac roedden nhw'n cael eu canu gan ei fand, The Tornados.

¹² Mae trosolwg byr o Wyl Ynys Wyth 1970 ar gael yn <http://goo.gl/wbh4G8>

¹³ Gallwch weld hysbyseb ar gyfer DVD o'r ffilm 1971 Glastonbury Fayre yn <http://goo.gl/9M3EJT> gyda dolenni ar fersiwn llawn o'r ffilm.

¹⁴ Mae llinell amser ryngweithiol o ddatblygiad cerddoriaeth boblogaidd ar gael ar wefan The Guardian: <http://goo.gl/Zfoqaz>


¹⁵ Gallwch wyllo'r band yn perfformio'r gân hon a chaneuon eraill yma: <http://goo.gl/YYjtR4>

¹⁶ Gallwch wyllo fideo o Cliff a The Shadows yn perfformio'r gân hon yn <http://goo.gl/qoMpQH>

Roedd y fersiynau Prydeinig hyn o roc a rôl yn weddol ddiogel a glân o'u cymharu â roc a rôl America ac artistiaid fel Elvis Presley, Eddie Cochran a Gene Vincent.

FFOCWS: Cliff Richard – Elvis Prydain

Harry Webb oedd ei enw gwreiddiol, a chymerodd Cliff Richard ei enw llwyfan o 'Cliff' (clogwyn) sy'n awgrymu perygl, a 'Richard' ar ôl dylanwad cerddorol y canwr roc a rôl o America, Little Richard. Roedd yn perfformio'n fyw yn rheolaidd ym mar coffi 2is gyda'i fand The Drifters, sef The Shadows ar ôl iddyn nhw newid enw'r band i osgoi problemau cyfreithiol yn America. Daeth yn fwy poblogaidd o ganlyniad i slot rheolaidd ar raglen gerddoriaeth ITV, *Oh Boy!*, ac aeth ei sengl gyntaf *'Move It'* yn syth i rif 2 yn y siartiau yn 1958.



Ffynhonnell 6: Cliff Richard

Roedd edrychiad a phersona gwreiddiol Cliff ar y llwyfan yn seiliedig ar Elvis Presley – siwt, cudyn yn ei wallt (*quiff*), gwefusau wedi'u crychu (*curled lip*), pensel linellu ar ei lygaid (*eye liner*) a chluniau sy'n troelli (*swivelling hips*). Gofynnodd papur newydd y *Daily Sketch* 'A yw'r dyn hwn yn rhy rhywiol ar gyfer y teledu?'¹⁷ Yn fuan wedyn, daeth yn fwy o ddyn y 'byd adloniant' yn lle'r 'byd roc a rôl', gyda delwedd llai caled gan ehangu ei apêl i gefnogwyr. Dechreuodd hyd yn oed ymddangos mewn ffilmiau cerddorol fel *Summer Holiday* a *The Young Ones*, ac ef oedd yr artist mwyaf llwyddiannus o safbwynt gwerthu tocynnau sinema yn y DU yn 1962 ac 1963, gyda Sean Connery fel James Bond ar ei ôl. Mae gyrfa Cliff Richard wedi para'n hirach na phob un o'i gystadleuwyr, ac mae wedi para'n hirach na llawer o'r tueddiadau cerddorol newydd hefyd – roedd *Forty Golden Greats*, yr albwm o'i ganeuon mwyaf poblogaidd, ar frig y siartiau yn 1977, tan i albwm gan The Sex Pistols fynd â'i le, ond roedd recordiau Cliff Richard yn dal i gyrraedd rhif un yn y siartiau am sawl degawd ar ôl hynny.

Sgiffel oedd ymateb Prydain i roc a rôl, sef canu gan ddefnyddio offerynnau acwstig, neu offerynnau cartref. Un o'r recordiau sgiffel mwyaf llwyddiannus oedd fersiwn Lonnie Donegan o'r gân werinol Americanaidd *'Rock Island Line'* a wnaeth werthu 3 miliwn o gopiâu mewn chwe mis. Roedd llawer o gerddorion ifanc yn mabwysiadu'r arddull hon am fod yr offerynnau'n rhad, a'r ffordd o'u canu'n hawdd. Roedd y caneuon yn hawdd hefyd. Aeth y band sgiffel o Lerpwl, The Quarrymen, yn eu blaenau i ganu offerynnau trydanol, gan newid eu henw i The Beatles.

¹⁷ Dominic Sandbrook, *Never Had It So Good* (Llundain, 2005), tudalen 474.

FFOCWS: Beatlemania

Roedd The Beatles wedi bod yn canu gyda'i gilydd ar ryw ffurf ers 1956, ond dim ond ar ôl i Brian Epstein eu gweld yn canu yn The Cavern Club yn Lerpwl yn 1961 y daethon nhw'n enwog. Cafodd delwedd rocwyr y grŵp ei newid wrth i Epstein eu rhoi mewn siwtiau hamdden heb goleri yn lle siacedi a throwsus lledr, a thorri eu gwalltiau'n fyrrach mewn steil 'pennau mop' (*mop tops*). Dysgodd Epstein nhw i ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n dderbyniol i'r gynulleidfa ehangaf bosibl (e.e. ymgrymu ar ôl pob cân) a dweud wrthyn nhw am gadw eu perfformiadau'n fyr er mwyn gwneud yn siŵr bod y gynulleidfa eisiau mwy bob tro.



Ffynhonnell 7: The Beatles yn Llundain yn 1964

Sengl gyntaf y band oedd '*Love Me Do*'¹⁸ a gyrhaeddodd siart yr 1963 Uchaf yn 20. Cyrhaeddodd yr albwm cyntaf, *Please Please Me* frig y siartiau albwm yn 1962. Daeth y syniad y dylai bandiau ysgrifennu eu caneuon eu hunain yn boblogaidd diolch i The Beatles. Nid dyma oedd yr achos cyn iddyn nhw ddod yn enwog, ond dyma oedd yn gyffredin ar ôl hynny. Roedd eu caneuon pop dwy funud yn dylanwadu'n drwm ar y siartiau yn 1963 ac am sawl blwyddyn ar ôl hynny. Ni fyddai unrhyw un wedi gallu rhagweld poblogrwydd The Beatles - gwnaeth 26 miliwn o bobl eu gwyllo'n perfformio ar *The Royal Variety Show* yn 1963 ac roedd 73 miliwn o Americanwyr wedi eu gwyllo ar *The Ed Sullivan Show* yn 1964.¹⁹

Cyn gynted ag y daethant yn enwog, roedd criwiau enfawr o gefnogwyr yn eu dilyn o gwmpas i bobman, fel y gwelwch yn nilyniant agoriadol eu ffilm o 1964, *A Hard Day's Night*. Roedd nwyddau The Beatles, o lieiniau sychu llestri i chwistrelli gwallt (*hairspray*), yn llenwi siopau Prydain ac America. Dechreuodd pobl alw'r obsesiwn â The Beatles yn 'Beatlemania'. Roedd pobl yn sgrechian mor uchel yn eu cyngherddau nad oedd y gynulleidfa'n gallu clywed y band yn canu. Mae Dr Jean Quinn yn cofio eu gweld yn canu ar y Pier yn Llandudno: 'Roedd yr awyrgylch yn drydanol cyn gynted ag yr aethon ni i mewn drwy'r drws. Pan ddaeth The Beatles ar y llwyfan, roedd y sŵn yn gwbl fyddarol, nid fel unrhyw beth y gallen ni ei ddychmygu, a

¹⁸ Gallwch wyllo fideo o The Beatles yn perfformio'r gân hon yn 1962 yma: <http://goo.gl/IX9W6y>

¹⁹ Perfformiadau The Beatles yng Nghaerdydd ewch i

<http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/day-beatles-played-cardiff--10584998> a cheir archif o berfformiadau The Beatles yng Nghymru yn <http://www.bbc.co.uk/wales/music/sites/beatles/>

merched yn sgrechian ymhobman - prin y gallen ni glywed y gerddoriaeth!²⁰ Cododd cryn dipyn o wrthwynebiad i'r band yn UDA pan ddywedodd John Lennon ym mhapur newydd yr *Evening Standard* yn 1966, "Rydyn ni'n fwy poblogaidd na Iesu Grist nawr"²¹

1960au: Miwsig 'roc' ('Beat' music)²²

Wrth i fandiau sgiffll ddechrau defnyddio offerynnau trydanol, gwnaethon nhw greu eu fersiwn eu hunain o roc a rôl, y cyfeirir ato weithiau fel 'miwsig roc' (beat music) oherwydd rhythmau gwthiol y caneuon a churiad ôl y drymiau. Roedd y bandiau hyn, fel The Beatles, The Rolling Stones, The Kinks, The Who, etc. yn cael eu dylanwadu gan ystod eang o recordiau roc a rôl a **rhythm a'r felan (R&B: rhythm and blues)** o America.

FFOCWS: 'Fydech chi'n gadael i'ch merch briodi Rolling Stone?'

Dechreuodd The Rolling Stones ganu gyda'i gilydd yn 1962. Rhyddhawyd sengl gyntaf y band, 'Come On', yn 1963, a rhyddhawyd yr albwm cyntaf, *The Rolling Stones*,²³ yn 1964. Roedd straeon cynnar yn y papurau newydd yn canolbwyntio ar berfformiadau byw egniol a chignoeth y band, yn ogystal â'u hedrychiad garw a'u gwalltiau hir, a oedd yn wrthgyferbyniad i The Beatles a oedd yn ymddwyn yn dda ac yn gwisgo'n dda. Roedd rheolwr y band, Andrew Loog Oldham, yn annog hyn trwy osod penawdau yn y papurau newydd, er enghraifft y pennawd ym mhapur newydd y *Melody Maker*, 'Fydech chi'n gadael i'ch chwaer fynd gyda Rolling Stone?'

Er i'r band ddechrau trwy recordio ail fersiynau (*cover versions*) o ganeuon R&B a roc a rôl (a hyd yn oed cân Lennon-McCartney, '*I Wanna Be Your Man*'), gwnaeth Keith Richards a Mick Jagger ddatblygu partneriaeth gyfansoddi lwyddiannus iawn. Roedd caneuon The Rolling Stones yn aml yn fwy rhywiol nag unrhyw beth gan The Beatles, o ail fersiynau o ganeuon fel '*I Just Want To Make Love To You*' (cân R&B boblogaidd o'r 1950au, a ddaeth yn enwog ar ôl i Muddy Waters ei chanu), i gyfansoddiadau Jagger/Richards fel '*(I Can't Get No) Satisfaction*'²⁴ a '*Let's Spend The Night Together*'²⁵

Roedd cwmnïau recordiau Prydain yn araf yn sylweddoli pa mor boblogaidd oedd 'miwsig roc' – gwrthododd swyddog recordiau ar gyfer label Decca y cyfle i weithio gyda The Beatles yn 1962 gan ddweud bod bandiau gitâr yn hen ffasiwn. Yn ystod hanner cyntaf yr 1960au, roedd y bandiau hyn mor llwyddiannus yn y DU fel bod eu recordiau'n cael eu gwerthu yn UDA – 'Goresgyniad y Prydeinwyr' oedd enw'r wasg yn America am hyn

FFOCWS: The Kinks a The Who

Dau fand dylanwadol arall o Brydain yn yr 1960au oedd The Kinks a The Who. Dechreuodd

²⁰ Dyfyniad gan fam yr awdur yn Phil Star, *Datblygiadau ym myd Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth yn ystod yr 20fed ganrif* (Aberystwyth, 2011), tudalen 75.

²¹ Stuart Clayton, *Mass Media, Popular Culture and Social Change in Britain since 1945* (Edexcel, 2010), tudalen 45.

²² Mae clip byr am y sîn Roc yn Ne Cymru yn yr 1960au ar gael yma: <http://www.bbc.co.uk/programmes/p01mj1zj>

²³ The Rolling Stones yn perfformio rhai o'u caneuon o'r cyfnod hwn <https://youtu.be/XhFbpUGteMQ>

²⁴ Gallwch wyllo fideo o'r band yn perfformio'r gân hon yn fyw yn 1965 yma <http://goo.gl/UITcB9>

²⁵ Mae fideo o'r band yn canu'r gân hon ar *Top of the Pops* yn 1967 ar gael yn: <http://goo.gl/gpY0J2>

gyrfaoedd y ddau fand yn Llundain yn 1964.

Gwnaeth The Kinks ryddhau eu cân gyntaf '*Long Tall Sally*'²⁶ yn 1964, a'u halbwm cyntaf o'r enw *Kinks* yr un flwyddyn. Daeth Ray Davies yn enwog am ei ddefnydd arloesol o synau yn y stiwdio. Er enghraifft, torrodd amp ei gitâr er mwyn ystumio'r (*distort*) sain ar '*You Really Got Me*',²⁷ a wnaeth ddylanwadu ar lawer o gerddorion garej amaturaidd yn y DU ac yn UDA. The Kinks hefyd oedd y cerddorion cyntaf o Brydain i ymgorffori'r drôn Indiaidd yn eu cerddoriaeth, fel sydd i'w glywed yn '*See My Friends*'.²⁸ Yn y pen draw, bydden nhw'n symud oddi wrth wneud senglau i ganolbwyntio ar ysgrifennu albymau thema am elfennau o fywyd ym Mhrydain fel *The Kinks Are The Village Green Preservation Society* (1968). Yn ystod eu taith o amgylch America yn 1965, cafodd y band eu gwahardd rhag canu yn UDA am bedair blynedd gan un o undebau cerddorion America.



Ffynhonnell 8: The Who

'*I Can't Explain*'²⁹ (1964) oedd sengl gyntaf The Who a rhyddhawyd albwm cyntaf y band, *My Generation*, yn 1965. Roeddent yn denu llawer o sylw gan y cyfryngau oherwydd eu 'celf hunan-ddinistriol' - cyfeiriai hyn at y ffordd roedd y band yn aml yn dinistrio eu hofferynnau ar ddiwedd gig. Yn y pen draw, arweiniodd hyn at achosi difrod hirdymor i glust Pete Townshend ar ôl i'r band chwythu'r drymiau i fyny ar sioe deledu yn America.³⁰ Pete Townshend oedd y prif gyfansoddwr, a dechreuodd gyda chaneuon am 'angst' pobl ifanc yn eu harddegau fel '*I Can't Explain*'³¹ a '*My Generation*',³² cyn mynd i'r afael â phynciau mwy heriol fel trawswisgwyr ('*I'm A Boy*') a phornograffi ('*Pictures of Lily*'). Erbyn diwedd yr 1960au, rhoddodd y band y gorau i ganolbwyntio ar senglau a dechrau cynhyrchu albymau 'cysyniad' fel yr opera roc *Tommy* (1969) am fachgen ifanc anabl a oedd yn dda am chwarae ar beiriannau 'pinball' a *Quadrophenia* (1973) am y diwylliant mod.

Roc seicedelig

Yn yr 1960au hwyr, roedd cerddoriaeth roc seicedelig yn ceisio dyblygu'r profiad seicedelig o gymryd cyffuriau rhithweledol fel LSD. Gwnaethpwyd hyn trwy gymysgu elfennau o gerddoriaeth y byd, fel ragâu a dronau estynedig cerddoriaeth o India, ynghyd ag offerynnau fel y sitar a'r tabla,

²⁶ Gallwch wyllo fideo o The Kinks yn canu'r gân hon yn The Cavern Club yn 1964 yma: <http://goo.gl/GZQ05f>

²⁷ Mae fideo o berfformiad teledu cynnar (gyda chynulleidfa'n sgrechian yn y cefndir) ar gael yma: <http://goo.gl/qa6jmH>

²⁸ A Mae fideo o berfformiad o'r gân hon ar gael i'w gwyllo yn <http://goo.gl/buCRWE>

²⁹ Gallwch wyllo fideo o The Who yn perfformio'r gân hon <http://goo.gl/zm17ed>

³⁰ Gallwch weld y digwyddiad hwn yn <https://youtu.be/MVa4q-YVjD8>

³¹ Mae fideo pop cynnar ar gyfer y record hwn ar gael yma: <http://goo.gl/So3eJs>

³² Gallwch wyllo perfformiad cynnar sy'n gorffen yn nodweddiadol yma <http://goo.gl/tDZljP>

gydag effeithiau electronig newydd (adborth, 'wah wah') a thechnegau recordio (dolennau tâp (*tape loops*), tapio am yn ôl (*backward taping*), oedi). Roedd syntheseiddwyr electronig newydd a'r mellotron, a allai chwarae synau wedi'u recordio trwy allweddellau, yn cael eu defnyddio hefyd. Byddai caneuon yn aml yn llawer hirach na chaneuon pop traddodiadol, gydag arwyddion amser a strwythurau cerddorol anghyffredin. Roedd geiriau seicedelig yn aml yn cyfeirio at gyffuriau, llenyddiaeth (fel gwaith Tolkien), neu'n llawn delweddu swrrealiaidd. Mae'r dylanwadau hyn i'w gweld mewn caneuon fel '*A Whiter Shade of Pale*'³³ gan Procol Harum, ac albymau fel *Sergeant Pepper's Lonely Hearts Club Band*³⁴ gan The Beatles neu *Pipers At The Gates Of Dawn*³⁵ gan Pink Floyd.

1970au: Glam Roc a Phync³⁶

Glam roc

Gwnaeth cenhedlaeth newydd o gerddorion wneud eu henw yn yr 1970au cynnar gyda cherddoriaeth bop drydanol uchel a oedd yn mynd law yn llaw â ffasiwn pryfoclyd a syniadau dadleuol. Arweiniodd yr 1960au optimistaidd at yr 1970au mwy digalon, ac roedd pobl ifanc am wrando ar gerddoriaeth a oedd yn caniatáu iddyn nhw ddianc rhag y realiti a oedd yn mynd yn fwyfwy llwm.

Roedd glam roc yn uchel ac yn llachar ac yn herio llawer o'r syniadau parod am beth oedd yn dderbyniol o ran gwisgoedd ac agweddau at rywioldeb. Byddai cantorion a cherddorion yn gwisgo dillad pryfoclyd, yn aml yn seiliedig ar hen wisgoedd a dyluniadau o Hollywood. Roedd perfformwyr gwrywaidd yn fodlon cael eu gweld yn gwisgo esgidiau sodlau platfform uchel, llwch disglair a cholur.

FFOCWS: T-Rextasy

Ffurfiwyd T-Rex gan y canwr/cyfansoddwr Marc Bolan³⁷ yn 1967. Gwnaeth y band berfformio eu sengl '*Hot Love*'³⁸ ar *Top of the Pops* yn 1971, a dyma sy'n cael ei ystyried fel y perfformiad 'glam roc' cyhoeddus cyntaf wrth i Bolan wisgo trowsus satin llachar a llwch disglair o amgylch ei lygaid. Daeth caneuon T-Rex yn fwy rhywiol ar ôl hyn, fel '*Get It On*'³⁹ (1971). Byddai perfformiadau yn y dyfodol yn gweld Bolan yn gwisgo esgidiau sodlau uchel a bwâu pluog ar y llwyfan. Cafodd yr ymateb gorffwyll gan gefnogwyr, yn enwedig merched yn eu harddegau, ei gymharu â 'Beatlemania' – rhoddodd y band yr enw 'T-Rextasy' ar hyn.

Roedd bandiau fel Slade yn gwisgo dillad glam ond roedd eu cerddoriaeth yn debycach i roc traddodiadol, ac ar y pegwn arall roedd Roxy Music yn gwneud cerddoriaeth a oedd yn fwy arbrofol a soffistigedig. Roedd David Bowie yn chwarae â'i ddelwedd yn fwriadol, gan fynd yn fwyfwy **androgynaid**, nid yn unig yng ngeiriau ei ganeuon ('You've got your mother in a whirl/ She's not sure if you're a boy or a girl' – '*Rebel Rebel*') ond hefyd gyda'i bersona ar y llwyfan, Ziggy Stardust.

³³Mae'r fideo sy'n cyd-fynd â'r gân hon ar gael yma: <http://goo.gl/r1Gs57>

³⁴'Strawberry Fields', un o'r caneuon a gafodd eu defnyddio i hyrwyddo'r albwm hwn <https://youtu.be/8UQK-UcRezE>

³⁵Gallwch wylïo'r fideo ar gyfer y gân 'See Emily play' yn <https://www.youtube.com/watch?v=5R8EpAv4miA>

³⁶Ffilm Don Lett am sîn pync y DU yn 1978 <https://www.youtube.com/watch?v=1qYWbhZHbug>

³⁷Mae rhaglen ddogfen gan y BBC, *Marc Bolan – The Final Word*, ar gael i'w gwylïo yma: <http://goo.gl/qzvyO3>

³⁸Gallwch wylïo'r perfformiad hwn yma: <http://goo.gl/S34TN4>

³⁹Perfformiad ar Top of the Pops <https://www.youtube.com/watch?v=XNkwe86LY6Q>

FFOCWS: David Bowie a Ziggy Stardust

Roedd David Bowie wedi treulio wyth mlynedd yn ceisio dod yn enwog, a '*Space Oddity*'⁴⁰ (1969) oedd ei unig lwyddiant. Yn 1972, gwnaeth un o'i greadigaethau artistig, sef Ziggy Stardust â'i wallt coch pigog, daro tant â'r cyhoedd ar ôl perfformiad trawiadol o'r gân '*Starman*'⁴¹ ar *Top of the Pops*, yn gwisgo siwt undarn secwinau ac esgidiau plattform, gyda'i fraich dros ysgwydd ei gitarydd Mick Ronson. Arhosodd yr albwm *The Rise and Fall of Ziggy Stardust and the Spiders From Mars* (1972) yn siart y 50 Uchaf am ddwy flynedd, er nad aeth yn uwch na rhif 5.



Ffynhonnell 9: David Bowie a Mick Ronson yn perfformio

Roedd llawer o bethau am gerddoriaeth a delwedd David Bowie a oedd yn apelio i bobl mewn oes o ddiweithdra cynyddol a streicio eang – pwyslais yr albwm Ziggy oedd dathlu yn wyneb trychineb (dim ond pum mlynedd sydd ar ôl ar y Ddaear) a daeth dau albwm apocalyptaidd arall i ddilyn – *Aladdin Sane* a *Diamond Dogs*. Roedd gwisgoedd a pherfformiadau meim cymeriad Ziggy, a oedd yn chwarae ar ymdeimlad theatraidd glam roc, ynghyd â rhywioldeb amwys Bowie, yn gwneud iddo ymddangos yn llawer mwy dirgel a diddorol – yn 1971 dywedodd wrth y *Melody Maker* ei fod yn **ddeurywiol**. Roedd Ziggy wedi ymdeol ar ôl sioe olaf yn 1973, ond gwnaeth dylanwad y caneuon a'r delweddau bara am sawl blwyddyn ar ôl hynny.

⁴⁰Gallwch weld perfformiad teledu o 1970 o'r gân hon yma: <http://goo.gl/eKCleZ>

⁴¹Mae atgofion o'r ymateb ar ôl gweld Bowie yn perfformio 'Starman' ar *Top of the Pops* ar gael yn <http://goo.gl/VR3n8N> ac <http://goo.gl/nY27wN> ond gweler y ffotograff enwog gan Mick Rock yn dangos sut aethpwyd â'r syniad hwn lawer ymhellach yng nghyngherddau Bowie <http://goo.gl/nrNzhS>

Pync-roc

Dechreuodd cerddoriaeth pync⁴² yn America yn yr 1960au. Defnyddiwyd y term 'pync' yn wreiddiol i olygu 'dechreuwr' ac roedd cerddoriaeth pync yn cael ei chanu gan bobl nad oedd ganddyn nhw lawer o sgiliau cerddorol. Erbyn ail hanner yr 1970au, roedd llawer o bobl ifanc wedi'u dadrithio gan ddiweithdra cynyddol, ac roedd llawer yn credu nad oedd ganddyn nhw lawer i edrych ymlaen ato. Gwnaeth Tony Parsons, newyddiadurwr cerddoriaeth ar gyfer *NME* a oedd yn ysgrifennu yn 1976⁴³, alw pync yn 'roc a rôl ciw'r dôl'. Daeth pync-roc, sef sŵn uchel ac amrwd iawn a wnaethpwyd gan bobl ifanc yn aml heb lawer o sgiliau cerddorol, yn ffordd i'r bobl ifanc blin hyn yn eu harddegau fynegi eu hunain. Roedd geiriau pync yn fwriadol bryfoclyd, gan ymosod ar y Teulu Brenhinol, swyddi nad oedden nhw'n mynd i unman, yr heddlu, rhyfel, **anarchiaeth**, terfysgoedd a phrynwriaeth (*consumerism*). Agwedd oedd yn bwysig i gerddoriaeth pync, nid sgil.

Mae llawer o bobl yn ystyried mai '*New Rose*'⁴⁴ gan The Damned oedd y record pync cyntaf ym Mhrydain, a dilynodd llawer o fandiau eraill yn fuan wedyn. The Sex Pistols yw'r band pync mwyaf drwg-enwog wrth iddyn nhw yn bwrpasol geisio bod yn ddadleuol, gan regi ar deledu byw amser te a chanu eu cerddoriaeth ar gwch ar afon Tafwys, y tu allan i'r Senedd. Bwriad ffasiwn pync, fel gyda glam roc, oedd rhoi sioc i bobl - roedd steiliau gwallt dynion yn llachar a phigog, a gwalltiau merched wedi'i dorri'n andros o fyr; roedd y dillad wedi'u rhwygo a phinnau cau a stydiau prin yn eu cadw gyda'i gilydd - weithiau roeddent yn defnyddio symbolau Natsïaidd neu'n hagru lluniau o'r Frenhines. Mewn gigs pync, byddai pobl yn neidio i fyny ac i lawr i'r gerddoriaeth, yn poeri ar ei gilydd ac yn ymladd â'i gilydd.

FFOCWS: The Sex Pistols a Jiwbilî Arian 1977⁴⁵

Ffurfiwyd The Sex Pistols yn 1975 fel band i'r gwrthwyneb i The Beatles, a sengl gyntaf y band oedd '*Anarchy In The UK*'⁴⁶ (1976). Ym mis Rhagfyr 1976, gwnaethon nhw ymddangos ar y rhaglen deledu cylchgrawn amser te *Thames Today* gan regi'n fyw ar yr awyr ar ôl i'r cyfwelydd Bill Grundy ofyn iddyn nhw wneud rhywbeth hurt.⁴⁷ Mi wnaeth llawer o'r lleoliadau lle'r oedd bandiau pync i fod i chwarae ar y daith 'Anarchy' ganslo ar ôl gweld y rhaglen⁴⁸. Y diwrnod canlynol, rhoddodd y *Daily Mirror* sylw i'r stori, gan ddefnyddio'r pennawd '*The Filth and the Fury*'.

Aeth y band hyd yn oed yn fwy eithafol na hynny. Roedd **Jiwbilî Arian** y Frenhines yn 1977 yn creu cyfle delfrydol i The Sex Pistols hawlio cyhoeddusrwydd trwy ymosod ar y frenhiniaeth a'r llywodraeth. Arestwyd sawl person ar ôl i'r band ganu eu cân gwrth-frenhiniaeth '*God Save The Queen*' gyferbyn â'r Senedd o gwch ar afon Tafwys. Mae theori cynllwynio fodern yn awgrymu bod y siartiau cerddoriaeth ar ddechrau Mehefin 1977 wedi cael eu trefnu ymlaen llaw i atal y gân '*God Save The Queen*' gan The Sex Pistols rhag cyrraedd rhif 1 yn ystod dathliadau Jiwbilî Arian y Frenhines.⁴⁹

⁴² Cyfres ddogfen gan y BBC o'r enw *Punk Britannia* (pennod 1 – '*Beginnings of punk*' <https://youtu.be/5VZ-cSo0PhA>)

⁴³ Dominic Sandbrook, *Seasons in the Sun* (Llundain, 2012), tudalen 556.

⁴⁴ Mae egni amrwd pync i'w weld yn fideo'r band hwn ar gyfer y gân hon yn <https://goo.gl/AhFF3E>

⁴⁵ Ffilm *The Filth and the Fury*, sy'n edrych ar The Sex Pistols o safbwynt y band ei hun, mae'r trailer i'w weld yma <https://youtu.be/OXyf4jKtrSo>

⁴⁶ Mae fideo o berfformiad teledu ar gael yn <http://goo.gl/wlaciN>

⁴⁷ Gallwch wylio rhaglen ddogfen fer am y darn drwg-enwog yma o hanes teledu yma: <http://goo.gl/Xah0j5>

⁴⁸ Mae protestiadau yn erbyn y Sex Pistols yn chwarae yng Nghaerffili ar gael yma <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/6180555.stm> a <http://www.bbc.co.uk/wales/music/sites/history/pages/sex-pistols-caerphilly.shtml>

⁴⁹ Mae'r fideo swyddogol ar gyfer y gân hon i'w gweld yma: <http://goo.gl/yUNKbJ>

Dylanwad cerddoriaeth pobl dduon America

Y 'Rhythm a'r Felan' (*R&B: Rhythm and Blues*) oedd yr enw generig a roddwyd ar gerddoriaeth sionc pobl dduon America ar ôl yr 1940au. Gwnaethpwyd y math hwn o gerddoriaeth yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd gwyn ar ffurf roc a rôl, wrth i artistiaid gwyn fel Elvis Presley ei pherfformio. Yn y pen draw, daeth artistiaid R&B fel Chuck Berry, Muddy Waters a Howling Wolf i gael dylanwad enfawr ar gerddoriaeth Prydain. Gwnaeth bandiau fel The Kinks a The Rolling Stones ryddhau ail fersiynau o rai o'r recordiau R&B Americanaidd hyn cyn iddyn nhw ddechrau ysgrifennu eu caneuon eu hunain, ac roedd bandiau 'mod' fel The Small Faces a The Who hefyd yn gefnogwyr R&B brwd (slogan The Who oedd 'Maximum R&B'). Daeth rhai cerddorion du o America fel Geno Washington a Jimi Hendrix i'r DU a dod yn gerddorion llwyddiannus am eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy nag oedden nhw yn eu gwlad eu hunain.

Roedd 'miwsig yr enaid' (*soul music*) yn fath o R&B a oedd ar ei anterth yn yr 1960au, yn arbennig trwy labeli record Motown ac Atlantic. Roedd yn fath o gerddoriaeth ddawns fywiog, wedi'i dylanwadu gan 'gospel', ac roedd adrannau pres yn cael eu hychwanegu at y fformat band arferol, sef gitâr, bas a drymiau. Roedd y caneuon yn afaelgar, a'r gytgan yn hawdd ei chanu. Trwy gydol yr 1960au, roedd artistiaid du o America fel Smokey Robinson and the Miracles,⁵⁰ The Supremes a The Four Tops yn teithio o amgylch y DU yn canu mewn theatrau a oedd wedi gwerthu pob tocyn, gan fwynhau llwyddiant ysgubol yn y siartiau. Roedd gyrfaedd cantorion Prydeinig gwyn fel Tom Jones a Dusty Springfield hyd yn oed yn seiliedig ar ganu beth roedd yr Americanwyr duon yn ei alw'n '*blue-eyed soul*'. Yn yr 1970au, dechreuodd clybiau nos mewn rhai trefi yn y gogledd, fel Wigan Casino, chwarae 'miwsig yr enaid' mewn cyfarfodydd dawns arbennig a fyddai'n para trwy'r nos. Yn aml, roedden nhw'n chwarae recordiau gan y labeli 'miwsig yr enaid' llai enwog na'r gerddoriaeth a fyddai'n ymddangos yn y siartiau. Yr enw a roddwyd ar hyn oedd 'Northern Soul'.⁵¹

Pa mor boblogaidd oedd y gerddoriaeth boblogaidd newydd?

Roedd siartiau cerddoriaeth yr 1960au a'r 1970au yn dangos bod mathau newydd o gerddoriaeth yn parhau i gystadlu â'r mathau hyn a oedd yn dal i fod yn boblogaidd:

- y sengl fwyaf llwyddiannus yn 1965 oedd baled '*Tears*' gan y digrifwr Ken Dodd, nid sengl gan The Beatles, The Rolling Stones, nac unrhyw fand newydd arall o Brydain
- yn 1967, llwyddodd baled Englebert Humperdinck '*Release Me*'⁵², i gadw cân The Beatles, '*Strawberry Fields/Penny Lane*' o rif 1 yn y siartiau
- dim ond ar adegau roedd yr albwm *Sergeant Pepper's Lonely Hearts Club Band* gan The Beatles yn cyrraedd rhif un yn y siartiau, oherwydd ei fod yn cystadlu yn erbyn y trac sain poblogaidd iawn i'r ffilm *The Sound of Music*
- nid albymau gan fandiau fel The Clash a The Sex Pistols oedd yn gwerthu orau yn yr 1970au, ond albymau gan fandiau wedi'u dylanwadu fwy gan ddisgo fel Abba a'r Bee Gees; y senglau a wnaeth werthu orau yn yr 1970au oedd '*You're the one that I want*' gan Olivia Newton-John a John Travolta o'r trac sain i'r ffilm *Grease*, a '*Bright Eyes*' gan Art Garfunkel o'r ffilm *Watership Down*

⁵⁰ Mae fideo ohonyn nhw'n perfformio ar y teledu ar gael yma: <https://youtu.be/5RDUYOSpH9w>

⁵¹ Gallwch wylio rhifyn arbennig o The Culture Show sy'n trafod Northern Soul yn <http://goo.gl/9UFZZT> yn ogystal â rhaglen fyrrach am y '*soul boys*' yn <https://youtu.be/GpiWdWbl6t0>

⁵² Mae fideo o Humperdinck yn perfformio'r gân hon yn 1967 ar gael yma: <http://goo.gl/UjTGkD>

- cadwyd sengl The Sex Pistols, 'God Save The Queen', o safle rhif 1 yn y siartiau yn 1977, sef haf Jiwbilî Arian y Frenhines, gan sengl Rod Stewart, 'I don't want to talk about it/The first cut is the deepest'.

Beth oedd effaith y defnydd cynyddol o'r teledu?



Ffynhonnell 10: Teulu ym Mhrydain yn gwyllo'r teledu yn yr 1950au

Cyflwyniad: Cynnydd yn y nifer o bobl â setiau teledu

Roedd y BBC yn cael arian trwy werthu trwyddedau bob blwyddyn, yn hytrach na thrwy hysbysebion. Roedd rhaid i bobl brynu trwydded er mwyn cael caniatâd i wrando ar y radio neu wyllo'r teledu. Mae nifer y trwyddedau a brynwyd yn rhoi awgrym da i haneswyr o faint o bobl oedd â setiau teledu.

Tabl 1: Nifer y trwyddedau teledu rhwng 1950 a 1975⁵³

1950	1955	1960	1965	1975
344,000	4,504,000	10,470,000	13,253,000	17,701,000

Yn ôl y ffigurau hyn, roedd gan 75% o'r boblogaeth deledu yn eu tai erbyn 1961, ac roedd hyn wedi codi i 91% erbyn 1971. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos mai 1958 oedd y flwyddyn pan gyhoeddwyd mwy o drwyddedau teledu na thrwyddedau radio. Erbyn 1969, roedd y teledu yn cyfrif am 23% o sut roedd pawb yn y DU yn treulio eu hamser hamdden.

⁵³ Sally Waller, *A Sixties Social Revolution? British Society 1959-1975* (Nelson Thornes, 2008), tudalen 39.

Pam y daeth y teledu mor boblogaidd?

Cytundebau hurbwrcas – yn gwneud setiau teledu yn fwy fforddiadwy

Roedd twf y gwasanaeth teledu ar ôl y rhyfel yn golygu bod mwy o bobl eisiau set deledu, ond roedden nhw'n ddrud. Wrth i gyflogaeth lawn a chyflogau gwell arwain at deuluoedd mwy cyfoethog yn yr 1950au, gallai mwy a mwy o bobl brynu eu setiau eu hunain. I'r rheini nad oedden nhw'n gallu fforddio prynu teledu o hyd, roedd cwmnïau fel Radio Rentals yn cynnig setiau am ad-daliad neu bris llog misol (a elwir yn 'hurbwrcas') a oedd yn llawer mwy fforddiadwy. Tyfu a newid a wnaeth y gwasanaeth teledu wrth i orsafoedd ITV a BBC2 gael eu cyflwyno, ac wrth i orsafoedd ddechrau darlledu mewn lliw ar ddiwedd yr 1960au. Daeth yn llawer haws i bobl logi'r setiau teledu diweddaraf, yn lle prynu un newydd trwy'r amser. O ganlyniad, roedd llawer mwy o setiau teledu lliw yn cael eu gwerthu na setiau du a gwyn erbyn yr 1970au.

Newidiadau yn y maes teledu – gwella'r gwasanaeth

Ailddechreuodd gwasanaeth teledu y BBC ym mis Mehefin 1946, ar ôl cael ei ddiffodd yn ystod y rhyfel. Ar y dechrau, dim ond i bobl a oedd yn byw yn ne-ddwyrain Lloegr roedd y gwasanaeth ar gael. Dros y ddau ddegawd nesaf, gwnaethpwyd nifer o newidiadau pwysig yn y gwasanaeth teledu:

- trwy'r 1950au, lledaenwyd y gwasanaeth teledu yn raddol ledled y DU
- dechreuodd ail sianel deledu ddarlledu yn 1955 – roedd ITV (*Independent Television*) yn **ddarlledwr masnachol**. Er mai un sianel oedd ITV, roedd rhaglenni a oedd yn cael eu darlledu ar y sianel yn cael eu gwneud gan gwmnïau teledu rhanbarthol gwahanol fel Granada, Yorkshire, Midlands, Tyne Tees ac Anglia.
- yn 1962, gyda dyfodiad lloeren gyfathrebu Telstar⁵⁴ roedd hi'n bosibl darlledu dros yr Iwerydd; wrth i fwy o loerenni gael eu gosod yn y gofod, daeth darllediadau rhyngwladol yn fwy cyffredin, e.e. yn 1967, rhaglen *Our World* oedd y darllediad byd-eang cyntaf i gael ei ddarlledu'n fyw, a chafodd ei wyllo gan 400 miliwn o bobl mewn 26 o wledydd o amgylch y byd - yn y darllediad hwn y gwelwyd y perfformiad cyntaf o gân The Beatles '*All You Need Is Love*' dros y byd
- dechreuodd trydedd sianel, BBC2, ddarlledu mewn du a gwyn yn 1964, a dechrau dangos rhai rhaglenni mewn lliw o 1967 ymlaen – digwyddiadau chwaraeon byw fel Wimbledon⁵⁵ a ffilmiau fel arfer. Dechreuodd BBC1 ac ITV ddarlledu mewn lliw hefyd yn 1969.
- o 1966 ymlaen, roedd cenhedlaeth newydd o setiau teledu a oedd yn defnyddio transistorau yn llawer llai ac yn rhatach na'r modelau hŷn.

⁵⁴Gallwch wyllo ffilm fer sy'n dathlu 50 mlynedd ers lansio Telstar yn <http://goo.gl/TvVhpV> a gallwch wyllo rhaglen ddogfen hirach yn <http://goo.gl/OmwKkb>. Darllediad yr Arlywydd Kennedy trwy Telstar ar gael yn https://youtu.be/pZmzb2_HTjQ

⁵⁵ Mae darn o ffilm lliw ar gael i'w gwyllo yma: <https://www.youtube.com/watch?v=ZxfZEZY5ilo>

Cystadlu am wylwyr – gwneud rhaglenni poblogaidd

Yn rhifyn cyntaf y cylchgrawn *TV Times* yn 1955, roedd yn dweud:

Ni fydd gwylwyr bellach yn derbyn beth mae pobl yn ei ystyried sydd orau ar eu cyfer. Nod y cynllunwyr teledu annibynnol newydd yw rhoi i wylwyr beth maen nhw ei eisiau – pryd maen nhw ei eisiau.⁵⁶

Roedd gan y BBC fonopoli ar ddarledu teledu tan 1955. Roedd y BBC wedi ymdrechu'n galed i gadw'r gynulleidfa ar noson agoriadol ITV trwy gynllunio marwolaeth erchyll Gracie Archer yn y ddrama radio boblogaidd *The Archers* ar gyfer yr un noson. Erbyn 1957, roedd gan ITV gyfran o 76% o'r gynulleidfa deledu. Yn 1960, ITV oedd yn darlledu'r 10 rhaglen fwyaf poblogaidd. Roedd ITV yn dangos llawer mwy o raglenni ysgafn, ac fel darlledwr y wladwriaeth, roedd y BBC yn darlledu rhaglenni llawer mwy difrifol. Roedd ITV yn dangos rhaglenni poblogaidd o America hefyd, fel *I Love Lucy* (comedi), *Dragnet* (drama heddlu) a *Gunsmoke* (cowbois (*western*)). Roedd fersiynau Prydeinig o raglenni gêm Americanaidd fel *Double Your Money* a *Take Your Pick*, a'r rhaglen dalent *Opportunity Knocks* yn cael eu darlledu hefyd. Roedd rhaglenni mwy difrifol a llai poblogaidd, fel cyngherddau clasurol a pherfformiadau o operâu, yn cael eu dangos yn hwyr fin nos pan nad oedd llawer yn gwyllo beth bynnag.

Yn annhebyg i'r BBC, nid oedd ITV yn wasanaeth cyhoeddus ac nid oedd ganddo unrhyw ymrwymiad i roi gwybodaeth nac i addysgu pobl. Dyma atgof un fenyw: 'Doedden ni ddim yn cael gwyllo ITV. Roedd fy mam yn athrawes ac roedd hi'n meddwl y byddai'r sianel yn pydru ein meddyliau.'⁵⁷

I ennill y gynulleidfa deledu yn ôl, penodwyd Hugh Greene gan y BBC yn 1960 fel Cyfarwyddwr Cyffredinol. Aeth ag arian oddi wrth y radio a'i fuddsoddi yn y teledu, gan adeiladu'r Ganolfan Deledu yn Shepherd's Bush fel cartref i'r rhaglenni newydd roedden nhw'n mynd i'w gwneud. Roedd ennill y fasnachfrait ar gyfer sianel newydd yn 1960 yn golygu y gallai rhaglenni mwy difrifol gael eu symud i BBC2, gan alluogi BBC1 i ddangos rhaglenni mwy poblogaidd.

Cafodd Pennaeth Drama newydd, Sydney Newman, ei recriwtio. Roedd Newman wedi mwynhau llwyddiant di-ri gyda'i ddramâu poblogaidd ar ITV, fel *The Avengers*, ac aeth yn ei flaen i greu rhaglenni fel *Doctor Who* a'r ddrama gyfnod boblogaidd *The Forsyte Saga* ar gyfer y BBC, yn ogystal â chefnogi dramâu newydd mwy heriol fel *Cathy Come Home* am ddigartrefedd. Comisiynwyd **comedïau sefyllfa** newydd a mwy heriol fel *Steptoe and Son*, am dad a mab a oedd yn rhedeg iard sbwriel, a *Till Death Us Do Part*, am hen ddyn blin. Diweddarwyd y gwasanaeth newyddion hefyd er mwyn ei wneud yn debycach i'r newyddion teledu sydd ar y sgrin heddiw, a darlledwyd *That Was The Week That Was* i **ddychanu** gwleidyddion a straeon newyddion. Roedd mor boblogaidd, byddai tafarndai'r DU yn wag am 8pm bob nos Sadwrn wrth i bobl ruthro adref i wyllo'r rhaglen.

Roedd rhaid i ITV wneud newidiadau hefyd. O 1960 ymlaen, roedd y llywodraeth yn mynnu bod ITV yn darlledu rhaglenni mwy difrifol, felly cyflwynwyd *News At Ten* a'r rhaglen gylchgrawn ymchwilol *Tonight* i gystadlu yn erbyn newyddion y BBC a'r rhaglen materion cyfoes *Panorama*.

Ceir llawer o enghreifftiau o raglenni ar un sianel a gyflwynwyd i gystadlu yn erbyn rhaglen debyg ar sianel arall. Dilynwyd cyfres BBC *The Great War*, am y Rhyfel Byd Cyntaf, gan *The World At War*, am yr Ail Ryfel Byd, ar ITV. Yn Rhagfyr 1960, darlledwyd y bennod gyntaf o opera sebon ITV, *Coronation Street*, a oedd yn portreadu 'bywyd mewn stryd gyffredin mewn tref gyffredin'. Roedd

⁵⁶ Dominic Sandbrook, *Never Had It So Good* (London, 2005), tudalen 387.

⁵⁷ Sally Waller, *A Sixties Social Revolution? British Society 1959–1975* (Nelson Thornes, 2008), tudalen 389.

yn cael ei darlledu'n fyw ar y dechrau, felly roedd angen sgriptiau da ac actio da. Darlledwyd *Z Cars* ar y BBC ar ôl hyn, sef drama heddlu realistig wedi'i lleoli ar Lannau Mersi. Roedd y straeon yn gythryblus ac yn dangos effaith negyddol y swydd ar fywydau'r cymeriadau, sef swyddogion yr heddlu. Roedd performwyr enwog weithiau'n cael eu denu i symud o un sianel i'r llall – roedd Morecambe a Wise yn gweithio i ITV rhwng 1961 ac 1968, ond gwnaethon nhw symud at y BBC i weithio rhwng 1968 ac 1977 (gwylodd 28 miliwn o bobl rifyn Nadolig arbennig o'u rhaglen yn 1977), gan symud yn ôl i ITV rhwng 1978 ac 1983.

Astudiaeth achos: Y teledu a digwyddiadau cyhoeddus pwysig – coroni 1953⁵⁸

Daeth y Frenhines Elizabeth II yn Frenhines yn dilyn marwolaeth ei thad, y Brenin Siôr VI, ar 6 Chwefror 1952, ond cafodd ei **choroni** yn ffurfiol yn Abaty San Steffan ar 2 Mehefin 1953. Roedd dwy filiwn o bobl allan ar strydoedd Llundain yn gwyllo'r orymdaith frenhinol. Dyma'r digwyddiad cyhoeddus mawr cyntaf i gael ei ddarlledu'n fyw ar deledu'r DU.

Yn ôl ymchwil y BBC i gynulleidfaedd:

Roedd dros hanner gwylwyr Gwasanaeth y Coroni yng nghartrefi eu ffrindiau, ac roedd oddeutu 1,500,000 yn gwyllo mewn mannau cyhoeddus fel sinemâu, siopau, ayb. Ar gyfartaledd, roedd tua saith o bobl o amgylch pob set deledu yn y cartref, ac eithrio plant.⁵⁹

Gwnaeth 32% o'r boblogaeth o oedolion (11.7 miliwn o bobl) wrando ar y coroni ar radio'r BBC, gyda sylwebaeth gan John Snagge, ond gwnaeth 56% o'r boblogaeth o oedolion (20.4 miliwn o bobl) wyllo'r coroni ar y teledu,⁶⁰ lle'r oedd Richard Dimbleby yn sylwebu ar y seremoni.

Nid oedd yn hawdd perswadio'r awdurdodau i ganiatáu i'r BBC roi'r coroni ar y teledu, ond cefnogwyd hyn gan ymgyrchoedd yn y papurau newydd. Gosodwyd cyfyngiadau ar y BBC:

- dim ond pedwar camera
- dim saethiadau golwg agos
- ni fyddai dim sylwebaeth uniongyrchol o'r seremoni eneinio (*anointing ceremony*).

Gwylodd y gynulleidfa y coroni ei hun, yn ogystal ag ymddangosiad y Frenhines newydd ei choroni ar falconi Palas Buckingham, awyrennau'r RAF yn hedfan heibio ac araith Winston Churchill. Gwnaeth Young Tiger (George Browne oedd ei enw go iawn), sef mewnfudwr o Trinidad, ganu'r gân galypso '*I was there at the Coronation*' ar ddiwedd y sylwebaeth ar y teledu.⁶¹ Saethwyd ffilm newyddion ar gyfer y sinema mewn lliw hefyd, a daeth yn boblogaidd iawn yn yr wythnosau dilynol.

⁵⁸ Mae rhaglen ddogfen lawn ar gael i'w gwyllo yma: <http://goo.gl/PHeeuW> ond gellir gwyllo eitem fyrrach am raglenni'r BBC o'r digwyddiad yma: <http://goo.gl/wS0su1>. Mae rhaglen fer am yr arwyddocâd i fyw y teledu ar gael yma: <http://goo.gl/HDiWIZ>

⁵⁹ David Kynaston, *Family Britain 1951–1957* (Bloomsbury, 2010), tudalen 300.

⁶⁰ David Kynaston, *Family Britain 1951–1957* (Bloomsbury, 2010), tudalen 299.

⁶¹ Gallwch glywed y gân yma <http://goo.gl/abVYHm>

Gwnaeth Mrs P. Gerrish, a wnaeth ateb apêl ar y radio yn yr 1990au am atgofion o dyfu i fyny yn yr 1950au, ddisgrifio ei phrofiadau o'r coroni fel a ganlyn:

Roedd y coroni i ddigwydd ar yr ail o Fehefin, felly aeth Dad i logi set deledu. Yn sydyn, ni oedd y bobl fwya' poblogaidd yn y stryd. Dim ond byngalo bychan oedd ganddon ni ac roedd y set yn y stafell fwya fechan. Aeth y bwrdd i'r gornel a'r cadeiriau fan hyn fan draw. Daeth rhai pobl â'u cadeiriau eu hunain. Gwasgwyd ffrindiau, cymdogion a hyd yn oed y ficer i mewn ac fe ddaethon nhw i gyd â bwyd i ginio.⁶²

Yn ôl Judith Miles, a oedd yn byw yn Sussex ac yn 11 oed adeg y coroni:

Mae'n siwr fod yna tua deuddeg o bobl wedi gwasgu i mewn i'n hystafell fyw, a phawb yn bwyta brechdanau ac yfed sieri ofnadwy o Dde Affrica. Pan chwaraewyd yr Anthem Genedlaethol, cododd pawb ar eu traed. Roedd yn gyffrous iawn gweld y goets aur a'r fenyw ifanc hon, sef ein brenhines newydd. Yn hwyrach ymlaen, aethon ni i gyd i lawr i'r Odeon yn Lewes i wyllo'r seremoni i gyd eto – mewn lliw.⁶³

⁶²Phil Star, *Developments in Sport, Leisure and Tourism during the 20th century* (Aberystwyth, 2011), tudalen 68.

⁶³Dyfynnwyd yn *Yesterday's Britain: The illustrated story of how we lived, worked and played in this century* (Reader's Digest, 1998), tudalen 209.

Astudiaeth achos: Teledu a chwaraeon – Cwpan y Byd 1966⁶⁴

Darledwyd *Grandstand* ar y BBC am y tro cyntaf yn 1958, ac roedd yn rhoi sylw i bob digwyddiad chwaraeon mawr, gan gynnwys Cwpan yr FA, Wimbledon, y Grand National, gemau prawf criced, y Gemau Olympaidd, a Chwpan Pêl-droed y Byd. Dechreuodd *World of Sport* ar ITV yn 1965, ac roedd yn cynnwys rhagolygon pêl-droed ('*On the Ball*'), rasio ceffylau ('*ITV Seven*') a reslo, yn ogystal â chwaraeon llai poblogaidd fel hoci, pêl-rwyd, sgïo dŵr a phêl-droed Gwyddelig (*Gaelic football*). Y rheswm am hyn oedd bod y BBC wedi prynu'r hawliau ar gyfer y prif ddigwyddiadau chwaraeon i gyd.

Roedd y ddwy sianel yn cael dangos Gêm Derfynol Cwpan y Byd 1966 o Wembley, wrth i Loegr guro Gorllewin yr Almaen 4-2. Roedd 32.6 miliwn o bobl yn gwyllo'r gêm yn y DU. Dyma'r gynulleidfa fwyaf erioed i wyllo rhaglen deledu yn y DU, ac mae hyn yn dangos dylanwad enfawr y teledu ar boblogrwydd chwaraeon erbyn yr 1960au. Roedd llawer o bobl wedi llogi setiau teledu yn arbennig i wyllo Gêm Derfynol Cwpan y Byd 1966.

Roedd y sylwebaeth ar Bencampwriaeth Cwpan y Byd yn afreolaidd iawn cyn 1966. Dim ond fel pecyn uchafbwyntiau wedi'i olygu yn UDA y dangoswyd y gêm derfynol o Chile yn 1962. Roedd pêl-droed yn cael ei ddangos ar y teledu yn barod – *Match of the Day* ar BBC1 o 1964 ymlaen a *Big Match* ar ITV o 1968 ymlaen. Cyn yr 1970au, roedd pêl-droed yn cael sylw ar y radio gan mwyaf. Roedd diagram yn cael ei argraffu yng nghylchgrawn amserlenni'r BBC, y *Radio Times*, bob wythnos i ddangos sut roedd y cae yn cael ei rannu yn wyth sgwâr. Roedd y sylwebwyr yna'n disgrifio digwyddiadau'r gêm trwy ddweud ym mha sgwâr roedd pethau'n digwydd. Rhoddwyd hwb i broffil pêl-droed ar y teledu o ganlyniad i sylwebaeth ar Gwpan y Byd 1966, a daeth y sylwebaeth yn llawer tebycach i'r hyn ydyw heddiw – gemau'n cael eu ffilmio o sawl ongl a sylwebaeth yn cael ei darlledu dros y gêm.

Cynhaliwyd cyfweiliad ag Ann Hungerford, a oedd yn 7 oed yn 1966, ar gyfer project ysgol gynradd ar Gwpan y Byd yn 2010:

Rwy'n cofio'r gêm derfynol yn iawn. Roedd 'nhad wedi cael teledu oddi wrth Rediffusion er mwyn gweld Cwpan y Byd. Yn ystod y gêm allwn i ddim diodde' mwy o straen felly fe es i ma's am dro. Roedd pob stryd yn wag. Dim ceir ar y ffordd na phobol ar yr hewl. Fe gerddes i heibio i gartre cymydog wrth i Loegr sgorio'r gôl ola' ac ennill y cwpan a dyma'r cymydog yn rhedeg allan gan weiddi, "Ni sy wedi ennill! Ni sy wedi ennill!" Fe ruthrais i adre ac roedd 'nhad yn dal fy chwaer fach, y babi, lan at y sgrin deledu ac yn dweud, "Cariad, wnei di byth weld hyn eto yn dy fywyd."⁶⁵

Roedd y teledu yn gwneud i nifer o chwaraeon llai poblogaidd ymddangos yn fwy cyffrous o lawer – roedd snwcer, bowlio a dartiau i gyd yn denu cynulleidfaoedd da ar y teledu, yn ogystal â bocsi, reslo rhydd, codi pwysau, deifio, sgïo, athletau a rasio ceir.

⁶⁴ Gellir gwyllo ffilm du a gwyn o raglenni'r BBC yn <https://youtu.be/FMDuHPvNtgg> neu mae uchafbwyntiau da ar gael yma mewn lliw https://youtu.be/3T6IY2fz_Mc a <https://youtu.be/Dau4icemNnE>.

⁶⁵ Phil Star, *Datblygiadau ym myd Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth yn ystod yr 20fed ganrif* (Aberystwyth, 2011), tudalen 23.

Roedd y teledu'n rhoi cyhoeddusrwydd i yrfaoedd llawer o sêr y byd chwaraeon, fel George Best, a oedd yn chwarae i dîm pêl-droed Manchester United, yn ogystal â hybu poblogrwydd cyflwynyddion teledu:

- Jimmy Hill (*Match of the Day*)
- Frank Bough (*Grandstand*)
- Dicky Davies (*World of Sport*)

Roedd sylwebwyr yn mynd yn fwyfwy enwog hefyd:

- Brian Moore a John Motson (pêl-droed)
- Brian Johnston (criced)
- Harry Carpenter (bocsio)
- David Coleman (athletau)
- Eddie Waring (rygbi cynghrair) a Bill McLaren (rygbi undeb)

Daeth sylwebaeth chwaraeon yn bwysig iawn i'r BBC. Roedd yn cyfrif am bumed ran o allbwn darlledu'r BBC erbyn 1968, gyda chymorth ei sylwebaeth boblogaidd ar Gwpan y Byd 1966 a Gemau Olympaidd México yn 1968.



Tabl 2: Rhai o'r rhaglenni teledu poblogaidd yn y dyddiau cynnar⁶⁶

Math o raglen	Sianel	Teitl y rhaglen
DRAMÂU CYFRES/ OPERÂU SEBON	ITV	<i>Coronation Street</i> (1960–presennol)
		<i>Crossroads</i> (1964–88 a 2001–03)
		<i>Upstairs, Downstairs</i> (1971–75 a 2010–12 ar y BBC)
	BBC	<i>Dr Finlay's Casebook</i> (1962–71)
		<i>Z Cars</i> (1962–78)
		<i>The Forsythe Saga</i> (1967)
CYFRES DRAMA ANTUR	ITV	<i>The Avengers</i> (1961–69)
		<i>Danger Man</i> (1960–68)
		<i>The Saint</i> (1962–69)
	BBC	<i>Quatermass</i> (1953–59)
		<i>Doctor Who</i> (1963–89 a 2005–presennol)
PLANT	ITV	<i>Thunderbirds</i> (1965–66)
		<i>Captain Scarlet and the Mysterons</i> (1967–68)
		<i>How</i> (1966–81)
	BBC	<i>Watch With Mother</i> (1950–74)
		<i>Play School</i> (1964–88)
		<i>The Magic Roundabout</i> (1965–77)
		<i>Blue Peter</i> (1958–present)
	CERDDORIAETH	ITV
BBC		<i>Juke Box Jury</i> (1959–67, 1979 a 1989–90)
		<i>Top of the Pops</i> (1964–2006)
CHWARAEON	ITV	<i>World of Sport</i> (1965–85)
	BBC	<i>Grandstand</i> (1958–2007)
		<i>Match of the Day</i> (1964–presennol)
MATERION CYFOES	ITV	<i>World in Action</i> (1963–98)
	BBC	<i>Tonight</i> (1957–65)

⁶⁶ Dyfynnwyd yn Sally Waller, *A Sixties Social Revolution? British Society 1959–1975* (Nelson Thornes, 2008), tudalen 42, ac mae rhestr gynhwysfawr o'r tudalennau Wikipedia ar gyfer rhaglenni teledu Prydain ar gael yma: <http://goo.gl/cu9VB8>

25 Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd 1951-1979: Rhan 5

Math o raglen	Sianel	Teitl y rhaglen
RHAGLENNI GÊM	ITV	<i>Double Your Money</i> (1955–68)
		<i>The Golden Shot</i> (1967–75)
	BBC	<i>The Generation Game</i> (1971–82 a 1990–2002)
		<i>What's My Line?</i> (1951–63)
RHAGLENNI TALENT	ITV	<i>Opportunity Knocks</i> (1964–78 a 1987–90 ar y BBC)
		<i>New Faces</i> (1973–78 a 1986–88)
RHAGLENNI CWIS	ITV	<i>University Challenge</i> (1962–87 ac 1994–presennol ar y BBC)
	BBC	<i>Mastermind</i> (1972–97 a 2003–presennol)
RHAGLENNI HANES	ITV	<i>The World At War</i> (1973–74)
	BBC	<i>The Great War</i> (1964)
RHAGLENNI ADLONIAINT	ITV	<i>Sunday Night at the London Palladium</i> (1955–67)
	BBC	<i>Billy Cotton Band Show</i> (1956–65)
		<i>The Black and White Minstrel Show</i> (1958–78)
COMEDI, DYCHAN, COMEDIAU SEFYLLFA	ITV	<i>The Army Game</i> (1957–61)
		<i>Bless This House</i> (1971–76)
		<i>Rising Damp</i> (1974–78)
		<i>The Morecambe and Wise Show</i> (1978–83)
	BBC	<i>Hancock's Half Hour</i> (1956–61)
		<i>Steptoe and Son</i> (1962–65 ac 1970–74)
		<i>Dad's Army</i> (1968–77)
		<i>The Likely Lads</i> (1964–66)
		<i>That Was The Week That Was</i> (1962–63)
		<i>Monty Python's Flying Circus</i> (1969–74)
<i>The Morecambe and Wise Show</i> (1968–77)		

Y lleihad yng nghynulleidfaedd y sinema

Tabl 3: Ffigurau'n dangos y lleihad yng nghynulleidfaedd y sinema⁶⁷

Blwyddyn	Nifer y sinemâu	Cynulleidfaedd yr wythnos (mewn miliynau)
1951	4,581	26.2
1953	4,542	24.7
1955	4,483	22.7
1957	4,194	17.6
1959	3,414	11.2
1960	3,034	9.6
1962	2,421	7.6
1964	2,057	6.6

Yn 1950, roedd cynulleidfaedd sinema yn gyfwerth â phob unigolyn yn mynd i'r sinema 27 gwaith y flwyddyn, ond gwelwyd lleihad cyflym wrth i'r teledu ddod yn fwy poblogaidd ac wrth i gartrefi pobl fynd yn fwy cyfforddus. Roedd y sinema wedi bod yn boblogaidd iawn yn yr 1920au a'r 1930au, a gwelwyd y cynulleidfaedd mwyaf yn ystod blynyddoedd y rhyfel wrth i bobl ddianc rhag caledi bywyd ar y Ffrynt Cartref. Gwnaeth y lleihad a ddechreuodd yn yr 1950au barhau hyd yn oed ar ôl i'r llywodraeth ddileu'r dreth adloniant ar docynnau sinema yn 1960. Gorfodwyd dros hanner sinemâu'r DU i gau rhwng 1955 ac 1963. Cafodd llawer eu dymchwel, a rhai eu troi yn neuaddau bingo, yn glybiau nos neu'n siopau.

Pam y gwnaeth cynulleidfaedd sinema leihau?

- roedd prisiau tocynnau yn codi oherwydd cynnydd yn y dreth adloniant
- roedd y prinderau ar ôl y rhyfel o ran deunyddiau ac arian parod yn golygu nad oedd sinemâu hŷn yn cael eu trwsio na'u cynnal a'u cadw'n dda, felly roedden nhw'n edrych yn llwm ac yn ddi-raen
- roedd tai newydd, cynnydd mewn perchentyaeth ac eitemau traul yn gwneud cartrefi yn fwy cyfforddus
- roedd rhaglenni teledu am ddim (heblaw am ffi'r drwydded ar gyfer y BBC) a gellid eu mwynhau mewn cartref cyfforddus.

⁶⁷ Chris Rowe, *The Making of Modern Britain 1951–2007* (Nelson Thornes, 2009), tudalen 37.

Wrth ysgrifennu yn ei werslyfr *Making History* yn 1996, dywedodd yr athro hanes Christopher Cuplin:

Pwy fyddai am fynd allan i sinema oer, ddrafftig, a oedd heb ei thrwsio na gweld côt o baent ers y 30au, a thalu prisiau a oedd wedi codi ar raddfa uwch o lawer na chwyddiant, pan allai'r teledu eich difyrru'n llawer rhatach bob mis, a hynny o flaen y tân ar eich aelwyd gynnes?⁶⁸

Roedd mynd i'r sinema'n parhau i fod yn adloniant teuluol poblogaidd, er enghraifft, roedd rhaglenni fel *Flash Gordon* a *Zorro* yn cael eu dangos brynhawn Sadwrn ar gyfer y plant. Roedd y sinema yn rhywle lle'r oedd pobl ifanc yn mynd â'u cariadon. Roedd arolwg yn 1947 yn dangos bod dau berson ifanc o bob tri yn mynd i'r sinema mwy nag unwaith yr wythnos, felly roedd cynulleidfa'r sinema yn mynd yn fwyfwy ifanc. Yn yr 1950au, gwelwyd dyfodiad ffilmiau o America i bobl ifanc yn eu harddegau – roedd *Blackboard Jungle* (1954) a *Rock Around the Clock* (1955) yn arwain y ffordd. Yna, daeth ffilmiau'r canwr roc a rôl poblogaidd o America, Elvis Presley, fel *Girls, Girls, Girls* (1962). Erbyn yr 1960au, roedd Prydain yn cynhyrchu ei ffilmiau ei hun ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, fel *Summer Holiday* (1963) gyda Cliff Richard, ac *A Hard Day's Night* (1964) gyda The Beatles, dwy ffilm boblogaidd iawn ar y pryd.

Gwnaeth sinemâu geisio ennill y gynulleidfa roedden nhw wedi ei cholli i'r teledu yn ôl. I ddechrau, roedden nhw'n dangos ffilmiau rhyfel fel *The Dambusters* (1955) a *Bridge Over the River Kwai* (1957) i apelio at atgofion y genhedlaeth hŷn o'r rhyfel. Roedd pobl hefyd yn dal i fynd i'r sinema i weld pethau nad oeddent yn gallu eu gwyllo ar y teledu - y ffilmiau mawr cyffrous fel ffilmiau James Bond (gan gychwyn gyda *Dr No* yn 1962), ffilmiau epig ar sgrîn lydan fel *Lawrence of Arabia* David Lean (1962) a *Dr Zhivago* (1965), ffilmiau ffuglen wyddonol atmosfferig fel *2001: A Space Odyssey* (1968) a sioeau cerdd trawiadol fel *The Sound of Music* (1969).

Roedd peidio â bod mor llym o ran **sensoriaeth** trwy Ddeddf Anlladrwydd 1959 (*Obscenity Act*) yn golygu y gallai sinemâu ddangos ffilmiau na fyddai'n cael eu dangos ar y teledu. Roedd mwy o ffilmiau treisgar fel *Get Carter* (1970) ac *A Clockwork Orange* (1971) yn ogystal â ffilmiau rhywiol fel y gyfres *Confessions* a ddechreuodd yn 1974 a'r comedïau *Carry On* anwedus a ddechreuodd yn 1958, gan ryddhau ugain o ffilmiau dros yr ugain mlynedd nesaf.

Y radio yn parhau i fod yn boblogaidd

Roedd gan y BBC fonopoli ar y radio tan 1973. Erbyn 1951, roedd set radio 'di-wifr' gan 90% o gartrefi ym Mhrydain.⁶⁹ Gwelwyd cwmp yng nghynulleidfaoedd y radio o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn gwyllo'r teledu – er enghraifft, yn ystod yr 1950au, aeth y gynulleidfa ar gyfer opera sebon radio poblogaidd y BBC, *The Archers*, i lawr o 23 miliwn i 10 miliwn o wrandawyr yr wythnos. Ond, roedd y radio yn gwneud yn well na'r sinema oherwydd bod newidiadau mewn technoleg yn galluogi pobl i wrando ar y radio mewn mannau nad oeddent nhw'n gallu gwyllo'r teledu – roedd radios transistor cludadwy, batris hir oes a chlustffonau i gyd yn cyfrannu at hyn, yn ogystal â'r nifer cynyddol o geir a oedd â radios wedi'u gosod ynddyn nhw.

⁶⁸Dyfynnwyd yn Phil Star, *Datblygiadau ym myd Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth yn ystod yr 20fed ganrif* (Aberystwyth, 2011), tudalen 73.

⁶⁹Stuart Clayton, *Mass Media, Popular Culture and Social Change in Britain since 1945* (Edexcel, 2010), tudalen 20.

Newid ac addasu a wnaeth beth oedd yn cael ei gynnig ar y radio hefyd. Yn 1967, rhannodd y BBC y 'Rhaglen Ysgafn' yn ddwy, sef Radio 1, gyda cherddoriaeth ar gyfer gwrandawyr iau, a Radio 2, gyda cherddoriaeth ar gyfer gwrandawyr mwy aeddfed. Newidiwyd y 'Drydedd Rhaglen' yn Radio 3, ar gyfer pobl a oedd am wrando ar gerddoriaeth glasurol; a newidiwyd y 'Gwasanaeth Cartref' yn Radio 4, a oedd yn darlledu newyddion, trafodaethau a dramâu. Dechreuodd gwaith yn 1967 hefyd ar orsafoedd radio lleol a oedd yn llwyddiannus iawn. Gan mai unigolion oedd yn tueddu i wrando ar y radio, gallai rhaglenni gael eu targedu at beth roedd cynulleidfaoedd penodol ei eisiau, e.e. yr orsaf radio iaith Gymraeg, Radio Cymru, a ddechreuodd yn 1977. O 1973 ymlaen, roedd rhaid i'r BBC gystadlu â gorsafoedd radio masnachol hefyd, fel *Capitol Radio* yn Llundain a *Swansea Sound*.

Casgliad: Cynulleidfaoedd teledu erbyn diwedd yr 1970au

Erbyn diwedd yr 1970au, roedd pobl yn gwyllo 16 awr o deledu bob wythnos yn yr haf, ac 20 awr yr wythnos yn y gaeaf, ar gyfartaledd. Gallai digwyddiadau brenhinol, digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a ffilmiau mawr llwyddiannus ar y teledu ddenu hyd at 20 miliwn o wylwyr. Roedd cynulleidfaoedd o 15–20 miliwn yn gwyllo rhaglenni adloniant poblogaidd; 7–8 miliwn yn gwyllo rhaglenni dogfen; ac yn aml roedd 5 neu 6 miliwn ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Er yr holl gynnydd yn y byd teledu, roedd pobl yn dal i wrando ar y radio am 9 awr yr wythnos ar gyfartaledd.⁷⁰

⁷⁰ Arthur Marwick, *British Society Since 1945* (London, 1982), tudalen 206.

Pobl ifanc a 'bwlich y cenedlaethau'

1) Person yn ei arddegau (*teenager*)

Defnyddiwyd y term '*teenager*' am y tro cyntaf yn America yn yr 1930au fel ffordd o adnabod grŵp oedran penodol i gael ei dargedu gan hysbysebion. Roedd yn cael ei ddefnyddio yn y DU yn yr 1950au. Cyn hyn, roedd pobl yn meddwl eich bod yn blentyn, ac yna roeddech chi'n oedolyn, heb unrhyw gyfnod pontio rhwng y ddau. Roedd plant yn fersiynau llai o oedolion; roedd disgwyl iddyn nhw wisgo'r un math o ddillad, mabwysiadu'r un steiliau gwallt a dilyn yr un diddordebau. Fodd bynnag, o'r 1950au ymlaen, roedd pobl ifanc yn dod yn ddylanwad pwysicach o lawer yn y gymdeithas. Erbyn 1960, roedd oddeutu 40% o boblogaeth y DU o dan 25 oed.

Roedd pobl ifanc yr 1950au yn rhy ifanc i gofio Dirwasgiad yr 1930au, ynghyd â pheryglon a phrinderau'r Ail Ryfel Byd a'r caledi a ddilynodd. Roedden nhw'n tyfu i fyny mewn byd llawer mwy sefydlog a ffyniannus. Roedden nhw'n fwy iach nag yr oedd pobl ifanc erioed wedi bod o ganlyniad i gyflwyno'r Wladwriaeth Les. Roedden nhw'n fwy cyfoethog am fod cyflogaeth lawn wedi rhoi sicrwydd swydd a chyflogau uwch i'w rhieni.

Nid dim ond oherwydd eu rhieni roedd pobl ifanc yn fwy cyfoethog:

- Roedden nhw'n ei chael yn haws dod o hyd i waith rhan-amser neu waith ar y penwythnos
- Roedden nhw'n gallu edrych ymlaen at gael swydd ac ennill cyflog teg ar ôl gadael yr ysgol yn 15 oed
- Roedd gwelliannau technolegol yn golygu bod llawer o alw am lafur di-greffft, felly gallai pobl ifanc osgoi gorfod gwneud prentisiaethau nad oedd yn talu cyflog uchel
- Nid oedd disgwyl i bobl ifanc dosbarth gwaith roi eu henillion yng nghyllideb y teulu bellach, gan fod cyflogau eu rhieni yn llawer gwell
- Roedd pobl ifanc yn dal yn ddigon ifanc i fyw gartref, a oedd yn eu gadael â mwy o gyflog i wario arnyn nhw eu hunain
- O 1960 ymlaen, gallai dynion ifanc ennill cyflog go lew yn gynt oherwydd nid oedd rhaid iddyn nhw wneud Gwasanaeth Cenedlaethol bellach, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob dyn 18 oed dreulio dwy flynedd yn y lluoedd arfog, a phedair blynedd yn y fyddin wrth gefn.

Roedd gwaith ymchwil a gynhaliwyd rhwng 1959 ac 1961 yn dangos bod gan bobl ifanc £8 yr wythnos i'w wario ar gyfartaledd, a oedd yn golygu eu bod yn cyfrif am 10% o gyfanswm incwm gwladol y DU. Roedden nhw'n gwario hanner yr arian yma ar adloniant – roedd pobl ifanc yn cyfrif am draean gwerthiant tocynnau sinema a dwy ran o bump o werthiannau recordiau a chwaraewyr recordiau.

FFOCWS: Ffasiwn pobl ifanc a Carnaby Street

Erbyn yr 1960au cynnar, roedd pobl ifanc wedi dod yn grŵp pwysig o ddefnyddwyr. Erbyn 1967, roedd hanner y dillad menywod a oedd yn cael eu gwneud ym Mhrydain yn cael eu gwerthu i ferched rhwng 15 a 19 oed. Dechreuodd ffasiwn newid yn gyflym iawn wrth i ddillad gael eu creu i fod yn dafladwy yn hytrach nag i'w cadw⁷¹. Daeth ffasiwn yn fwy llachar ac yn fwy arbrofol wrth i ddatblygiadau technolegol arwain at ddeunyddiau newydd fel plastig PVC, neilon, polyester ac acrylic a oedd i gyd yn rhatach, yn ogystal â bod yn haws i'w siapio a'i lliwio. Cafodd dilynwyd fel Mary Quant, a'i chadwen o siopau boutique, ddylanwad mawr ar y ffasiynau newydd hyn, gan gyflwyno syniadau newydd dewr fel y sgert mini. Cynyddodd poblogrwydd y ffasiynau newydd hyn oherwydd modelau fel Twiggy a Jean Shrimpton. Daeth ffasiwn yn ddiwydiant pwysig iawn ym Mhrydain, gyda'i ganolfan o amgylch Carnaby Street yn Llundain. Roedd siopau penodol yn gysylltiedig ag isddiwylliannau penodol hefyd – byddai mods yn prynu siwtiau cynllunydd siarp o John Stephen, a byddai hipis yn prynu hen siacedi milwrol o'r siop ddillad *I Was Lord Kitchener's Valet*.

2) Bwlch y cenedlaethau

Daeth gwahaniaethau ffasiwn yn arwydd gweledol o **fwlch y cenedlaethau**. O ran dillad, cafwyd datblygiadau fel sgertiau byrrach i ferched, ac roedd steiliau gwallt hirach yn fwy derbyniol i fechgyn. Caiff elfennau eithafol y gwahaniaethau hyn yn ffasiwn yr 1960au eu dychanu yn y gân *'Dedicated Follower of Fashion'*⁷² (1966) gan The Kinks.

Roedd ystod eang o faterion lle'r oedd gan y genhedlaeth hŷn a'r genhedlaeth iau farn wahanol:

- cerddoriaeth bop ac arwyr pop a oedd yn newid gyda phob cenedlaeth newydd o bobl ifanc
- agweddau tuag at ryw a oedd yn newid, herio barn grefyddol am ryw cyn priodi, defnyddio dulliau atal cenhedlu modern
- cymryd cyffuriau, wrth i fandiau fel The Beatles a The Rolling Stones wneud ysmegu canabis a chymryd LSD yn boblogaidd
- safbwyntiau gwleidyddol fel cefnogi cydraddoldeb i fenywod, cydymdeimlad ar gyfer mewnfudwyr, dicter tuag at Ryfel Fietnam
- llai o ymddiried yn **y Sefydliad** oherwydd sgandalau gwleidyddol.

Roedd gan bobl ifanc yn yr 1950au a'r 1960au fwy o annibyniaeth ar eu rhieni nag unrhyw genhedlaeth o bobl ifanc o'u blaenau. Roedden nhw'n cael addysg well ac roedd ganddyn nhw fwy o sicrwydd ariannol, felly roedden nhw'n gallu datgan yn fwy hyderus eu hawl i gwestiynu pethau a gwneud eu dewisiadau eu hunain. Roedd mwy a mwy o blant dosbarth canol yn benodol yn gadael yr ysgol yn 16 oed neu'n aros i fynd i'r brifysgol – grantiau'r wladwriaeth oedd yn talu

⁷¹ Am glip am ffasiwn yr 1960au yng Nghymru ewch <http://www.bbc.co.uk/programmes/p01kvs15>

⁷² Gallwch wyllo perfformiad byw o'r gân hon gan The Kinks (gyda chyfraniad y gynulleidfa) yn <https://youtu.be/tqXrAHuLksU>

am hynny bellach. Rhwng 1961 ac 1969, cynyddodd nifer y myfyrwyr amser llawn mewn addysg bellach o 200,000 i 390,000. Gan fod pobl ifanc yn treulio mwy o amser mewn addysg, roedden nhw'n teimlo llai o angen canolbwyntio ar waith ac ennill arian, a oedd wedi bod yn bwysig iawn i genhedlaeth eu rhieni. Roedd ganddyn nhw fwy o amser a mwy o annibyniaeth, ac roedden nhw'n gallu canolbwyntio mwy ar ddatblygu eu hunaniaeth benodol nhw.

Roedd gan bobl ifanc hyd yn oed eu lleoedd eu hunain i fynd iddyn nhw, i dreulio amser gyda phobl ifanc eraill. Daeth bariau coffi fel 2is yn Soho, El Toro yn Muswell Hill neu'r Kardomah yn Lerpwl yn fannau cyfarfod ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, oherwydd byddai landlordiaid tafarndai yn taflu'r rheini a oedd dan oed allan. Roedd gan fariau coffi jiwcbocsys a oedd yn chwarae'r gerddoriaeth ddiweddaraf o America, a chynhaliwyd perfformiadau cerddoriaeth fyw yn y bariau weithiau, hyd yn oed. Daeth bariau byrgyrs Wimpy yn lleoedd lle byddai pobl ifanc yn cyfarfod â'i gilydd hefyd.

Nid oedd bwlch y cenedlaethau yn ymwneud â syniadau penodol yn unig, roedd hefyd yn ymwneud â safbwynt gwahanol ar y byd. Roedd y genhedlaeth hŷn wedi cael ei magu mewn cyfnod o ryfel a chaledi, ac roedd y genhedlaeth iau wedi cael ei magu mewn cyfnod o gyfoeth. Roedd y syniadau o ddyletswydd, cyfrifoldeb ac ufuddhau i orchmynion yn cael eu hystyried yn llai pwysig gan bobl ifanc nad oedden nhw wedi ymladd mewn rhyfel na gwneud Gwasanaeth Cenedlaethol. Yn yr 1960au, arweiniodd y safbwyntiau gwrthwynebol hyn ar lawer o faterion pwysig at ddisgrifio diddordebau pobl ifanc yn **wrthddiwyllyannol**. Caiff y gwahaniaethau hyn rhwng y genhedlaeth hŷn a'r genhedlaeth iau eu harchwilio yn y gân 'My Generation' (1965) gan The Who,⁷³ sy'n dechrau gyda'r llinell 'People try to put us down'.

Dyma atgofion Elisabeth Taylor, merch Brydeinig yn ei harddegau yn ystod yr 1960au, o'r cyfnod hwnnw:

Fel merch un ar bymtheg oed, nid oedd fy rhieni yn gadael i mi fynd allan ar fy mhen fy hun gyda bachgen, reidio ar gefn sgwter, yfed [alcohol] na mynd i glwb lle roedd y Rolling Stones yn perfformio. Felly un noson, fe wnes i dorri pob un o'u rheolau yn fwriadol. Roedd rhyw deimlad ein bod ni'n mynd i wneud pethau ein ffordd ni, a bod llawer ohonom ni'n ymwrthod â'n rhieni unigol, yn ogystal â beth roedd eu gwerthoedd nhw'n ei gynrychioli.⁷⁴

3) Tramgwyddaeth ymhlith pobl ifanc

Yn ôl llythyr ym mhapur newydd y *Daily Mail* ym mis Hydref 1949:

Mae pobl ifanc yn cael eu sbwylio â chyflogau uchel, amodau gwaith o'r radd flaenaf a chyfleusterau addysg gwych. Mae eu hagwedd yn seiliedig ar lyfrau a ffilmiau sothach. Mae'r bechgyn yn ddihirod cyn cael eu geni, yn anufudd ac yn anfoesgar, ac mae'r merched yn ddigywilydd ac yn aflednais.⁷⁵

⁷³ Gallwch wyllo crynhoad fideo o berfformiadau'r band o'r gân hon yn <http://goo.gl/Ky0MTS>

⁷⁴ Colin Shephard a Rosemary Rees, *British Depth Study 1939–1975* (Llundain, 2010), tudalen 24.

⁷⁵ Stuart Clayton, *Mass Media, Popular Culture and Social Change in Britain since 1945* (Edexcel, 2010), tudalen 34.

Roedd gan bobl ifanc yr 1950au a'r 1960au llawer mwy o amser hamdden oherwydd:

- roedd y gwaith tŷ yn cymryd llai o amser oherwydd dyfeisiau arbed gwaith
- o 1960 ymlaen, nid oedd rhaid i ddynion ifanc wneud Gwasanaeth Cenedlaethol
- roedd undebau llafur wedi gwneud yn siŵr bod gan swyddi oriau gwaith rhesymol
- wrth i'r oedran gadael ysgol godi, roedd gwyliau ysgol i'r rheini a oedd yn dal mewn addysg
- roedd gwyliau â thâl wedi'u sicrhau ar gyfer y rheini a oedd yn gweithio

Fodd bynnag, nid oedd mwy o amser hamdden a mwy o arian yn gwneud pobl ifanc yn hapus, o anghenraid. Gallai olygu llawer mwy o amser heb ddim byd adeiladol i'w wneud a mwy o ddiflastod.



Ffynhonnell 11: Tedi bois yn yr 1950au

Yn yr 1950au cynnar, roedd y tedi bois yn cael eu diawlio gan y genhedlaeth hŷn. Roedden nhw'n cael eu gwahardd o neuaddau dawns a thafarndai, yn cael eu cyhuddo o ymladd gangiau cystadleuol ac o ymosod ar glybiau ieuencid nad oedd yn caniatáu mynediad iddyn nhw. Roedd y ffilm Americanaidd i bobl ifanc, *Blackboard Jungle* (1955), am athro dros dro yn cael amser caled gan ddisgyblion anodd yn eu harddegau, ac roedd y ffilm *Rock Around The Clock* (1956) yn dangos doniau cerddorol Bill Haley a The Comets. Roedd Prydeinwyr yn eu harddegau yn fandaleiddio eu seddi pan oedd y ffilmiau hyn yn cael eu dangos yn sinemâu'r DU – cafodd y tedi bois y bai am hyn, a gwnaeth llawer o drefi wahardd sinemâu rhag dangos *Rock Around The Clock*.

FFOCWS: Effaith Diwylliant America

Roedd oedolion yn pryderu am ddylanwad cynyddol diwylliant America ar fywydau pobl ifanc yn eu harddegau ym Mhrydain – ‘Ydyn ni’n Troi ein Plant yn Americanwyr Bach?’ oedd pennawd cylchgrawn *Everybody’s Weekly* yn 1957.⁷⁶ Dechreuodd dylanwad America pan osodwyd lluoedd arfog UDA yn y DU yn ystod y rhyfel. Roedd pobl Prydain yn gwybod llawer am UDA yn barod trwy ffilmiau Hollywood. Gellir gweld dylanwad America ar bobl ifanc yn eu harddegau yn yr 1950au yn y DU yn y canlynol:

- cernflew (*sideburns*) a theis y tedi bois, a oedd yn rhan o ddelwedd gamblwyr mewn ffilmiau cowbois, ac roedd eu cotiau hir yn seiliedig ar ‘zoot suit’ milwyr UDA nad oedden nhw ar ddyletswydd
- byddai jiwcbocsys Americanaidd yn cael eu defnyddio i wrando ar recordiau roc a rôl mewn tafarnau llaeth (*milk*) Americanaidd yr olwg;
- y rocwyr a ddaeth yn amlwg yn yr 1950au hwyr ac a oedd yn cael eu dylanwadu gan genhedlaeth newydd o sêr roc a rôl Americanaidd fel Gene Vincent yn ei ddillad lledr neu sêr y byd ffilm fel y beiciwr Marlon Brando yn *The Wild One*.

Nid oedd diwylliant America yn cael dylanwad mor amlwg ar bob person ifanc. Roedd y mods yn cael eu dylanwadu’n fwy gan steil a ffasiwn Ewrop, gan dreulio eu hamser hamdden mewn bariau coffi Eidalaid, er eu bod nhw’n gwranddo ar fiwsig yr enaid a jazz modern. Yn gerddorol, roedd performwyr Prydeinig fel Cliff Richard a Tommy Steele yn dynwared Elvis Presley, ond yn sydyn, daethon nhw’n fwy poblogaidd o lawer nag y bu’r hen Bill Haley canol oed erioed. Roedd grwpiau roc Prydeinig yr 1960au yn cael eu hysbrydoli gan roc a rôl America a cherddoriaeth y felan (*blues music*), ond roedden nhw’n cyfuno’r math yma o gerddoriaeth â cherddoriaeth Brydeinig fwy traddodiadol fel sgiffil a’r theatr gerdd.

Erbyn 1964, roedd Americanwyr yn dechrau poeni am effaith ‘Goresgyniad y Prydeinwyr’ ar eu pobl ifanc. Yn y pen draw, roedd perthynas ddeuol rhwng UDA a’r DU. Roedd cerddoriaeth Brydeinig yr 1960au yn dylanwadu ar fandiau pync a garej America fel Iggy and the Stooges, New York Dolls ac MC5, ond y bandiau pync a garej hyn a wnaeth ddylanwadu ar fudiad pync Prydeinig yr 1970au ym Mhrydain.

Daeth pobl hŷn i ystyried cenedlaethau olynol o bobl ifanc yn hwlganiaid a throseddwyr. Gwelwyd cynnydd yn nifer y troseddau a adroddwyd yn yr 1950au a’r 1960au, a chafodd pobl ifanc y bai am lawer o’r troseddau hyn. Rhwng 1955 ac 1961, gwnaeth nifer y bechgyn rhwng 14 a 21 oed a gafodd eu dyfarnu’n euog o droseddau difrifol ddyblu, er bod cyfanswm nifer y bobl ifanc a oedd yn ymwneud â throseddu yn dal i fod yn isel iawn. Comisiynwyd Adroddiad Albermarle gan y llywodraeth yn 1960 oherwydd pryderon am y broblem ieuencid cynyddol, ond daeth i’r casgliad nad oedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn sinigaidd nac yn amharchus. Roedd pobl ifanc yn llawer mwy tebygol o ysmegu tybaco ac yfed coffi ac alcohol na chymryd LSD.

⁷⁶Dominic Sandbrook, *Never Had It So Good* (Llundain, 2005), tudalen 437.

Roedd papurau newydd yn dal i gyhoeddi straeon eithafol fel y gwrthdaro ar Wyl y Banc rhwng mods a rocwyr yn eu harddegau yn 1964, ond roedden nhw'n gwneud i bethau edrych yn llawer gwaeth nag oedden nhw go iawn.

Yn ôl papur newydd poblogaidd *The Daily Mirror*:

Fe wnaeth y Rhai Gwyllt [gangiau o mods a rocwyr] wthio eu ffordd i dref glan y môr [Clacton] ddoe – 1,000 o bobl ifanc yn eu harddegau yn ymladd, yn yfed, yn bloeddio ac yn creu helynt ar sgwteri a beiciau modur... Roedd bechgyn a merched ifanc mewn siacedi lledr yn ymosod ar bobl yn y stryd, yn troi ceir a oedd wedi parcio drosodd, yn torri i mewn i gabanau ar y traeth, yn torri ffenestri ac yn ymladd â gangiau cystadleuol.⁷⁷



Ffynhonnell 12: Rocwyr yn y 1960au⁷⁸

Fe wnaeth hysteria yn y cyfryngau droi barn y cyhoedd yn erbyn y grwpiau ieuentid hyn, er bod llawer o'r hyn a oedd yn y cyfryngau yn cael ei or-ddweud neu'n gelwydd pur. Y gwir oedd mân droseddau fandaliaeth gan bobl ifanc a oedd wedi diflasu, ac roedden nhw'n tueddu i wylltio am fod yr heddlu'n bod yn galed arnyn nhw.

⁷⁷O bapur newydd *The Daily Mirror*, 30 Mawrth 1964, fel y dyfynnwyd yn Dominic Sandbrook, *White Heat – A History of Britain in the Swinging Sixties* (Llundain, 2006), tudalen 203.

⁷⁸Gweler <https://youtu.be/miioqvQDP3M> lle mae rhaglen 30 munud o hyd am mods a rocwyr hefyd.

FFOCWS: Gostwng yr oedran pleidleisio

Roedd pobl ifanc yn cael eu diawlio yn y cyfryngau, ond roedd gan wleidyddion farn wahanol. Gwnaeth Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1969 ostwng yr oedran pleidleisio o 21 oed i 18 oed. Roedd y Blaid Lafur wedi rhoi addewid y byddent yn gwneud hyn ers eu manifesto yn etholiad 1966, 'er mwyn ychwanegu dimensiwn gwleidyddol angenrheidiol i safle pobl ifanc, sy'n dod yn fwyfwy pwysig ar lefel economaidd a chymdeithasol'.⁷⁹ Roedd ymchwiliad seneddol eisoes ar waith i ostwng yr oedran pleidleisio yn yr 1960au cynnar ac roedd eisoes wedi argymhell gostwng yr oedran pleidleisio i 20. Dewisodd y Blaid Lafur ei ostwng i 18 oed oherwydd dyma'r oedran y gallai pobl briodi ac ymladd dros y wlad. Dyma pryd roedd pobl yn dod yn ddinasyddion llawn, felly dylai pobl 18 oed allu pleidleisio hefyd.

Roedd y rhai a oedd yn cefnogi hyn hefyd yn dadlau y byddai pobl ifanc yn elwa ar ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r broses wleidyddol, ac na fydden nhw'n teimlo eu bod wedi'u hymddieithrio cymaint o benderfyniadau gwleidyddol. Pleidleisiodd y rhan fwyaf o ASau Ceidwadol yn ei erbyn, ond roedd yn dod â'r DU ochr yn ochr â'r rhan fwyaf o wledydd diwydiannol datblygedig eraill. Etholiad Cyffredinol 1970 oedd y tro cyntaf y gallai pobl ifanc 18 oed bleidleisio. Aeth rhai i bleidleisio ar y ffordd i'r ysgol i sefyll eu harholiadau Safon Uwch.

Roedd llawer o bobl ifanc wedi'u dadrithio yn yr 1970au. Roedd cyflogaeth lawn wedi bod ers yr Ail Ryfel Byd, ac roedd swyddi i bawb a oedd eisiau swydd. Wrth i economi'r DU gael trafferthion ddechrau'r 1970au, dechreuodd diweithdra gynyddu. Erbyn 1977 roedd 252,328 o bobl o dan 20 oed yn ddi-waith. Roedd hyn dair gwaith yn fwy nag yn yr 1960au. Erbyn 1979, roedd pedwar person ifanc o bob deg o dan 25 oed yn ddi-waith. Gan i'r Sex Pistols ganu yn 'God Save The Queen', roedd yn edrych fel nad oedd ganddyn nhw 'ddim dyfodol' Roedd rhai o'r bobl ifanc di-waith hyn a oedd wedi diflasu yn cael eu denu at y symudiad pync treisgar a **nihilaid** punk. Fel y dywedodd erthygl olygyddol ym mhapur newydd y *Daily Mirror* ym mis Mehefin 1977 o'r enw 'Punk Future'⁸⁰:

Nid yw'n llawer o hwyl bod yn ifanc heddiw... Mae 104,000 o blant ifanc sydd wedi gadael yr ysgol wedi mynd yn syth o'r ystafell ddosbarth i fywyd diog a dibwrpas ar y dŵl... A oes syndod bod pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u dadrithio a'u bradychu? A oes syndod eu bod yn troi at arwyr anarchaidd fel Johnny Rotten?... Mae pync roc wedi'i deilwra ar gyfer pobl ifanc sy'n meddwl mai dyfodol pync sydd o'u blaenau.



Ffynhonnell 13: Dau bync yn Llundain

⁷⁹ Dyfynnwyd hyn o Faniifesto'r Blaid Lafur 1966 sydd ar gael yn <http://goo.gl/ildDPU>

⁸⁰ Dominic Sandbrook, *Seasons in the Sun* (Llundain, 2012), tudalen 556.

Weithiau, roedd rhwystredigaethau dynion ifanc yn yr 1970au'n arwain at **hwliganiaeth** hefyd. Roedd sawl enghraifft nodedig o hyn:

- yn 1975, fe wnaeth cefnogwyr Tottenham Hotspur a Chelsea ymladd ar y cae chwarae ar ddiwedd gêm⁸¹
- yn y gêm bêl-droed ryngwladol Gartref yn Wembley yn 1977 rhwng Lloegr a'r Alban, enillodd Yr Alban 2-1 a rhedodd cefnogwyr Yr Alban ar y llwyfan, gan ddifrodi'r pyst gôl⁸²
- roedd y cefnogwyr yn ymladd ar y terasau yn rownd gogynderfynol Cwpan FA 1978 rhwng Millwall ac Ipswich a chafodd dwsinau o bobl eu hanafu.

4) Isddiwylliannau pobl yn eu harddegau

Roedd nifer o **isddiwylliannau** penodol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau rhwng 1951 ac 1979. Nid oedd yr un o'r grwpiau hyn yn tra-arglwyddiaethu ar unrhyw un adeg, ac roedd llawer o bobl ifanc nad oedden nhw'n ystyried eu bod yn perthyn i ddim un o'r grwpiau hyn.

TEDI BOIS ⁸³	ROCWYR ⁸⁴
<p>Gan ddechrau yn yr 1950au cynnar, roedden nhw'n gwisgo gwisgoedd steil Edwardaidd a roddodd eu henw iddyn nhw (mae 'teddy/ tedi' yn ffurf fyrrach o 'Edward'). O'u cymharu ag isddiwylliannau ieuenctid eraill roeddent wedi gwisgo'n barchus gyda'u siacedi '<i>Drape</i>' hir lliwgar, trowsusau main ac esgidiau gwadnau '<i>crepe</i>' o'r enw '<i>brothel creepers</i>'. Roedd ganddyn nhw wallt hirach na'r arfer wedi'i iro (<i>greased</i>) gyda chudyn (<i>quiff</i>) ar y top a rhaniad DA [cwt hwyaden (<i>duck's arse</i>)] yn y cefn. Roedd y 'teds' yn gwrando ar recordiau roc a rôl cynharach gan gantorion fel Bill Haley. Roedden nhw'n cael eu beio am fandaliaeth pobl ifanc mewn sinemâu pan oedd y ffilmiau <i>Blackboard Jungle</i> (1955) a <i>Rock Around The Clock</i> (1956) yn cael eu dangos.</p>	<p>Yn hwyrach ymlaen yn yr 1950au, aeth y tedi bois yn llai poblogaidd ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau. Daeth y rocwyr i'r amlwg, gan reidio beiciau modur (fel y Nortons a oedd yn cael eu gwneud ym Mhrydain), gwisgo dillad lledr a theithio mewn gangiau i gyfarfod mewn caffis ar ochr y ffordd. O'u cymharu â'r 'teds', roedd y rocwyr yn llawer mwy blêr gyda'u siacedi lledr, jîns budr, crysau-T a bŵts. Ysbrydolwyd nhw gan gangiau o America fel yr Hells Angels a'r beicwyr yn y ffilm <i>The Wild One</i> (1953) a oedd yn cael eu harwain gan Marlon Brando. Roedd y rocwyr yn gwrando ar genhedlaeth fwy newydd o sêr roc a rôl fel Gene Vincent ac Eddie Cochran.</p>

⁸¹ Gallwch weld y digwyddiad hwn yn <http://goo.gl/xnGa49>

⁸² Gallwch weld y cefnogwyr yn rhedeg ar y cae chwarae yma <http://goo.gl/fcz7cA>

⁸³ Mae crynodeb da o dedi bois ar gael mewn ffilm fer y gellir ei gwyllo yma: <https://youtu.be/tSPloCOMExg>

⁸⁴ Dyma rociwr yn disgrifio gwrthnawsedd (*antipathy*) tuag at mods <http://goo.gl/gDzP8m> gallwch weld carfan rocwyr y DU yr Hells Angels yma <http://goo.gl/uy7Dfl>

<p>MODS⁸⁵</p> <p>Daw gwreiddiau'r 'mods' o'r 1960au cynnar, a chawson nhw eu henwi ar ôl eu hoffter am jazz 'modern' yn lle jazz 'traddodiadol'. Roedd gan y mods steil llawer taclusach na grwpiau eraill fel y rocwyr. Roedden nhw'n gwisgo siacedi Eidalaidd trwsiadus heb goler, ac yn gwisgo parcas, trowsusau main, crysau polo neu siwmperi gwddf polo gydag esgidiau swêd. Cafodd eu steiliau gwallt twt, fel steil dysgl bwdin (<i>pudding basin cuts</i>), ddylanwad mawr ar edrychiad The Beatles ar ddechrau eu gyfaeod. Yn ogystal â gwrando ar gerddoriaeth jazz fodern cŵl, roedd y mods yn hoffi bandiau roc newydd fel The Who a Small Faces hefyd, ac roedd ganddyn nhw ddiddordeb mewn cerddoriaeth R&B pobl dduon America a miwsig yr enaid. Yn ogystal â'u dillad nodweddiadol, byddai pobl hefyd yn gweld mods allan yn reidio sgwteri, yn enwedig brandiau Eidalaidd fel Vespa a Lambretta.</p>	<p>HIPIS⁸⁶</p> <p>Daw eu henw o fratiaith pobl dduon America – 'hipster'. Daeth y syniad 'hipi' o UDA yn haf 1967. Roedd hipis yn gwisgo dillad mwy naturiol fel cotiau carthen flewog, ac roedd ganddyn nhw wallt hir iawn, yn aml heb ei olchi. Roedden nhw'n ymwrthod â chymdeithas draddodiadol, yn cefnogi'r amgylchedd, cymryd cyffuriau a chariad rhydd. Roedden nhw'n cymryd cyffuriau fel canabis ac LSD i geisio dod o hyd i oleuni ysbrydol, ac roedd cyfriniaeth 'ddwyreiniol' yn apelio'n fawr atynt. Roedd hipis yn gwrando ar gerddoriaeth seicedelig er mwyn ailadrodd eu profiadau ar gyffuriau. Roedd bandiau fel Pink Floyd a Procol Harum yn chwarae'r gerddoriaeth hon, ac yn fuan iawn daeth bandiau mwy poblogaidd i ddefnyddio'r sŵn hipi, fel albwm <i>Sgt Pepper's Lonely Hearts Club Band</i> The Beatles.</p>
<p>PENNAU CRWYN (SKINHEADS)⁸⁷</p> <p>Gan ddechrau yn yr 1960au hwyrach, roedd y pennau crwyn yn fersiwn dosbarth gwaith o'r mods. Roedd eu gwalltiau'n fyr iawn iawn ac roedden nhw'n gwisgo bresys, crysau Ben Sherman, jîns wedi'u rhoio ac esgidiau Dr Marten. I lawer o'r pennau crwyn, roedd yn ymateb macho iawn i'r mudiad hipi mwy merchetaidd. Roedden nhw'n gwrando ar gerddoriaeth ska a oedd yn cael ei dylanwadu gan reggae Caribiaidd artistiaid fel Desmond Dekker. Fe wnaeth label recordiau 2 Tone yr 1970au wneud ska yn fwy poblogaidd gyda cherddoriaeth gan fandiau fel The Specials. Erbyn yr 1970au, roedd rhai pennau crwyn yn ymladd mewn gemau pêl-droed ac aeth rhai yn eu blaenau i gymryd rhan mewn trais wedi'i gymhell gan hiliaeth. Fel y dywedodd un pen croen, "Beth rydyn ni o'i blaid? Dim byd."⁸⁹</p>	<p>PYNCS⁸⁸</p> <p>Mae'r enw 'pync' yn fratiaith o America am berson ifanc dibrofiad. Roedd y bobl ifanc hyn o'r 1970au yn ymosodol iawn. Roedden nhw'n gwisgo mewn ffyrdd a fyddai'n cynhyrfu pobl, gan wisgo pob math o gêr fel coleri ci, symbolau Natsïaidd, pinnau, stydiau, sipiau a lledr. Roedd eu steiliau gwallt fel arfer yn lliwgar a llachar - wedi eu torri'n fyr iawn i ferched, ac yn bigog neu fel mohican i fechgyn. Roedd y pyncs yn mynegi synnwyr o anniddigrwydd a bygythiad yn fwriadol yn y ffordd roedden yn gwisgo ac yn eu hagwedd. Roedden nhw'n gwneud hyn hefyd yn y ffyrdd roedden nhw'n mwynhau eu hunain – neidio i fyny ac i lawr i gerddoriaeth fyw, poeri ac ymladd. Roedd y pyncs yn bryfoclyd iawn, ond roedden nhw'n credu bod artistiaid gwrywaidd a benywaidd yr un mor bwysig – roedd gan fandiau fel The Slits a The Banshees brif gantorion a cherddorion a oedd yn fenywod.</p>

⁸⁵Caiff steil y mods ei ddisgrifio ar The People's Songs Stuart Maconie <http://goo.gl/lkqKfp> ac yn https://youtu.be/cuuf_7OFIhE

⁸⁶Gallwch wylio clip o *Learning Zone* y BBC am hipis yn https://youtu.be/9KWgI_FSYIQ ac yn https://youtu.be/iqr_kM6uxQY

⁸⁷Gallwch wylio ffilm fer sy'n cynnwys crynodeb da o'r pennau crwyn yn <https://goo.gl/GS5Cwo>

⁸⁸Alwyn W. Turner, *Crisis? What crisis? Britain in the 1970s* (Aurum, 2008), tudalen 62.

⁸⁹Gallwch wylio ffilm fer sy'n cynnwys darn bach da am y pyncs yn <https://goo.gl/JG3j3x>

Geirfa

DJs	Disc jockeys
Dim jeifio	Roedd y 'jeif' yn fath poblogaidd o ddawnsio a ddaeth o America yn yr 1940au
R&B (RHYTHM A'R FELAN)	Rhythm a'r felan
Androgynaudd	Rhanol wrywaidd a rhannol fenywaidd o ran edrychiad
Deurywiol	Yn hoffi perthynas â dynion a merched
Anarchiaeth	Peidio â chael dim llywodraeth
Jiwbilî Arian	Teyrnasu am 25 mlynedd
Darllledwr masnachol	Byddai'n talu am ei raglenni trwy werthu slotiau hysbysebu ar y teledu, yn hytrach na chael ffi trwydded i dalu amdano fel y BBC
Comediau sefyllfa	Comediau sefyllfa
Dychanu	Gnwued hwyl am ben
Coroni	Seremoni coroni
Sensoriaeth	Rheolaeth y llywodraeth dros yr hyn y caniateir ei ddangos
Bwlch y cenedlaethau	gwahaniaethau yn agweddau pobl ifanc a phobl hŷn
Y Sefydliad	y bobl hŷn, fwy breintiedig, a oedd yn rhedeg y wlad
Gwrthddiwylliannol	yn erbyn diwylliant eu rhieni
Nihilaidd	ymwrthod ag egwyddorion crefyddol a moesol a chredu nad oes ystyr i fywyd
Hwlliganiaeth	ymladd a bod yn dreisgar yn gyhoeddus
Isddiwylliannau pobl yn eu harddegau	grwpiau o bobl ifanc gyda diddordebau tebyg
Cariad rhydd	cael rhyw gyda phwy bynnag roeddech chi eisiau, heb berthynas ffurfiol.

Deunydd wedi'i argymhell

FIDEO:

'1960s – the Me generation' yng nghyfres ysgolion Landmarks

Andrew Marr's History of Modern Britain: pennod 2 'The Land of Lost Content' a phennod 3

'Paradise Lost' yn ymwneud â'r 1960au a'r 1970au

Mae'r ffilmiau hyn ar gael ar DVD:

Ffilmiau The Beatles *A Hard Day's Night* a *Help*

Made in Dagenham

Quadrophenia

DEUNYDD DARLLEN:

Phil Star, *Datblygiadau ym myd Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth yn ystod yr 20fed ganrif* (Aberystwyth, 2011)

Colin P. F. Hughes, Catrin Stevens and R. Paul Evans, *Y newid yn Rôl a Statws Menywod yn ystod yr 20fed Ganrif* (Aberystwyth, 2012).

Cydnabyddiaethau

Ffynhonnell 1: © Rex Features

Ffynhonnell 2: Flickr Creative Commons <http://goo.gl/R6l94P>

Ffynhonnell 3: © MARKA Alamy

Ffynhonnell 4: Wikimedia Creative Commons <http://goo.gl/DWP324>

Ffynhonnell 5: Wikimedia Creative Commons <http://goo.gl/7g9Y0C>

Ffynhonnell 6: Flickr Creative Commons <http://goo.gl/voxryT>

Ffynhonnell 7: Wikimedia Creative Commons <http://goo.gl/tRxK8g>

Ffynhonnell 8: Wikimedia Creative Commons <https://goo.gl/jUZxHM>

Ffynhonnell 9: Flickr Creative Commons <http://goo.gl/UJQnqn>

Ffynhonnell 10: Flickr Creative Commons <http://goo.gl/fYHk6X>

Ffynhonnell 11: Flickr Creative Commons <https://goo.gl/s0KhLX>

Ffynhonnell 12: Flickr Creative Commons <https://goo.gl/SQB7vF>

Ffynhonnell 13: Flickr Creative Commons <https://goo.gl/FhS5QN>

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddarparu i gefnogi'r broses o addysgu a dysgu TGAU Hanes. Mae'r deunyddiau'n rhoi cyflwyniad i'r prif agweddau ar hanes y cyfnod a dylid eu defnyddio ar y cyd ag adnoddau eraill yn ogystal ag addysgu cadarn yn yr ystafell ddosbarth.